



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y BIL CYLLIDO GOFAL PLANT **(CYMRU)**

Memorandwm Esboniadol
gan gynnwys
yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

Tachwedd 2018

Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Memorandwm Esboniadol y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 16 Ebrill 2018, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Huw Irranca-Davies AC

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant
Yr Aelod o'r Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

27 Tachwedd 2018

Cynnwys

RHAN 1 - MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad	4
2. Cymhwysedd deddfwriaethol	5
3. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	8
4. Ymgynghori	14
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	17
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol	22

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH

7. Opsiynau	30
8. Costau a manteision	38
9. Asesiad o effeithiau penodol	57
10. Adolygu ar ôl gweithredu	64

ATODIAD 1 - Nodiadau Esboniadol	66
ATODIAD 2 - Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog	72
ATODIAD 3 - Atodlen o Ddiwygiadau	65
ATODIAD 4 – Elfennau a diffiniadau'r model costau	79
ATODIAD 5 - Costau Opsiwn 1	82
ATODIAD 6 - Costau Opsiwn 2	91
ATODIAD 7 - Costau Opsiwn 3	99
ATODIAD 8 - Costau Opsiwn 4	107
ATODIAD 9 - Costau Opsiwn 5	119

1 Disgrifiad

1.1 Mae Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymwys rhieni sy'n gweithio ac i wneud rheoliadau ar y trefniadau ar gyfer gweinyddu a gweithredu cyllid o'r fath.

1.2 Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth er mwyn asesu eu cymhwysra ar gyfer y cyllid, a bydd yn ei gwneud yn bosibl i adrannau perthnasol Llywodraeth y DU rannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru at ddibenion dyfarnu cymhwysra person. Mae'r porth rhannu data yn rhan annatod o'r broses lle mae rhieni cymwys yn gallu gwneud cais am gyllid a darparu tystiolaeth o'u cymhwysra drwy system ddigidol yn bennaf.

2 Legislative Competence

2.1 Mae Deddf Cymru 2017 (Deddf 2017) yn cyflwyno model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol i Gymru, ac yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2016 er mwyn amnewid adran 108A newydd (cymhwysedd deddfwriaethol) yn lle'r adran 108 presennol ac Atodlenni 7A (materion a gedwir yn ôl) a 7B (cyfyngiadau cyffredinol) newydd yn lle'r Atodlen 7 presennol¹. O dan y model cadw pwerau hwn, tybir y bydd gan y Cynulliad y cymhwysedd i ddeddfu oni bai bod darpariaeth:

- yn ymestyn heblaw mewn perthynas â Chymru a Lloegr;
- yn gymwys etc heblaw mewn perthynas â Chymru;
 - oni bai ei fod yn ategol i ddarpariaeth o fewn cymhwysedd; ac
 - nad yw'n cael effaith fwy heblaw mewn perthynas â Chymru na'r hyn sy'n angenrheidiol; relates to reserved matters (provision set out in Schedule 7A to GOWA);
- yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl (darpariaeth a amlinellwyd yn Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru);
- mynd yn groes i unrhyw gyfyngiadau yn Atodlen 7B;
- yn gydnaws â hawliau Confensiwn neu gyfraith yr UE.

2.2 Mae Rhan 1 o Atodlen 7A yn rhestru'r materion cyffredinol a gedwir yn ôl o'r cymhwysedd, ac mae Rhan 2 yn rhestru'r materion penodol a gedwir yn ôl o'r cymhwysedd, sy'n faterion a gedwir yn ôl fel y rheini a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 7A. Ni ystyrir y bydd y ddarpariaeth a wneir gan y Bil yn dod o dan y materion a gedwir yn ôl sydd yn Rhan 2 o Atodlen 7A, yn enwedig adran F1 o Bennawd F – Nawdd Cymdeithasol, Cynnal Plant, Pensiynau a Digolledu.

2.3 Mae Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cynnwys y cyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd y Cynulliad. Mae Paragraff 1, Rhan 1 o Atodlen 7B yn darparu na chaniateir i ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad addasu'r gyfraith ar "faterion a gedwir yn ôl", na rhoi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i addasu'r gyfraith honno. Diffinnir "materion a gedwir yn ôl" ym mharagraff 2 o Atodlen 7B i olygu:

- unrhyw ddeddfiad sydd â phwnc wedi'i gadw'n ôl (o fewn y materion a gedwir yn ôl a amlinellir yn Atodlen 7A) (ac eithrio Deddf Llywodraeth Cymru);

2.4 unrhyw reol gyfreithiol nad yw mewn deddfiad ond lle mae'r pwnc yn fater a gedwir yn ôl. Mae paragraff 2 o Atodlen 7B yn cynnwys eithriad i'r cyfyngiad ym mharagraff 1 fel bod darpariaeth yn gallu dod o fewn cymhwysedd os yw'r addasu:

¹ Cafodd paragraff 108A ac Atodlenni 7A a 7B eu mewnosod i Ddeddf Llywodraeth Cymru gan adran 3 o Ddeddf Cymru 2017 (c. 4) a daeth i rym ar 1 Ebrill 2018.

- yn ategol i ddarpariaeth nad yw'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl; ac
- nad yw'n cael effaith fwy ar y materion hyn na'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni pwrpas y ddarpariaeth honno.

2.5 Mae adran 8 o'r Bil yn cynnwys diwygiad i adran 18 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005² (Deddf 2005) ac felly, ystyrir ei fod yn defnyddio'r cyfyngiad ym mharagraff 1, Rhan 1 o Atodlen 7B gan fod y diwygiad yn addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl (drwy ddiwygio deddfiad sy'n dod o dan y cyfyngiad yn adran A1 o Atodlen 7A mewn perthynas â'r polisi cyllidol, economaidd ac ariannol). Fodd bynnag, ystyrir bod y ddarpariaeth yn dod o fewn yr eithriad i'r cyfyngiad (sydd ym mharagraff 2 o Atodlen 7B).

2.6 Er mwyn dod o fewn yr eithriad hwn rhaid i ddarpariaeth fodloni'r ddwy ran o'r prawf. Rhan gyntaf y prawf (a osodir ym mharagraff 2(1)(a) o Atodlen 7B) yw bod y ddarpariaeth yn ategol i ddarpariaeth nad yw'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl.

2.7 Mae Adran 108A(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod darpariaeth yn ategol i ddarpariaeth arall os yw'n darparu ar gyfer gorfodi'r ddarpariaeth arall neu os yw'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth honno neu'n ganlyniadol iddo.

2.8 Ystyrir bod y diwygiad i adran 18 o Ddeddf 2005 yn ategol i adran 1 o'r Bil (pŵer Gweinidogion Cymru i gyllido gofal plant) neu adrannau 2 a 4 o'r Bil (y pŵer i wneud rheoliadau ar weinyddu a gweithredu'r cynllun gofal plant ac yn enwedig y pŵer i alluogi CThEM i ddarparu gwybodaeth gymhwyso i Weinidogion Cymru). Mae pwrpas datganoledig i'r darpariaethau hyn ac er mwyn iddynt fod yn effeithiol rhaid bod CThEM yn gallu rhannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru'n gyfreithlon. Heb y diwygiad i adran 18 o Ddeddf 2005, ni allai CThEM ddatgelu gwybodaeth berthnasol i Weinidogion Cymru at ddibenion gweinyddu'r cyllid, ac ar y sail honno ystyrir bod y diwygiad i adran 18 o Ddeddf 2005 yn ategol i'r darpariaethau y cyfeirir atynt uchod ac felly ei fod yn bodloni rhan gyntaf y prawf ym mharagraff 2(1)(a).

2.9 Ail ran y prawf (sydd ym mharagraff 2(1)(b) o Atodlen 7B) yw na ddylai'r ddarpariaeth gan mwy o effaith nag sy'n angenrheidiol i roi effaith i ddiben y ddarpariaeth ddatganoledig. Mae Adran 18 o Ddeddf 2005 yn rhwystr i ddatgelu, ni fyddai'n bosibl i Weinidogion Cymru weithredu rhaglen ddigidol a system gwirio cymhwysra gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ym meddiant CThEM heb y gallu i gael hyd i'r wybodaeth honno yn gyfreithlon ac felly heb y diwygiad i adran 18 o Ddeddf 2005 sydd wedi'i gynnwys yn adran 8 o'r Bil.

2.10 Wrth ystyried yr hyn sy'n angenrheidiol at ddibenion paragraff 2(1)(b) o Atodlen 7B nid yw'n berthnasol y gallai Senedd y DU ei hun fod wedi

² 2005 c. 11

deddfu'r ddarpariaeth. Ystyrir felly nad yw'r diwygiad i adran 18 o Ddeddf 2005 a wneir o dan adran 8 o'r Bil yn cael mwy o effaith ar y gyfraith ynghylch materion a gedwir yn ôl nag sy'n angenrheidiol i roi effaith i ddiben y ddarpariaeth a wneir yn adrannau 1, 2 a 4 o'r Bil.

- 2.11** Felly, mae gan y Cynulliad y cymhwysedd i ddiwygio adran 18 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 ar y sail bod y diwygiad hwn yn ategol i'r darpariaethau a wneir yn y Bil ac yn angenrheidiol i gyflawni pwrpas y darpariaethau.

3 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cefndir y polisi

- 3.1 Bwriedir i'r Bil helpu i gyflawni ymrwymiad allweddol ym maniffesto Llafur Cymru *Gyda'n Gilydd Dros Gymru (2016)*³, sef darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed yng Nghymru am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.
- 3.2 Amlinellwyd yr ymrwymiad hwn yn *Symud Cymru Ymlaen*⁴ ac roedd *Ffyniant i Bawb*⁵ yn ymhelaethu arno. Mae'r Cynllun *Gweithredu Economaidd*⁶ hefyd yn sôn am y cynnig 30 awr.
- 3.3 Mae gan bob plentyn tair a phedair oed sy'n gymwys (o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed) hawl i 10 awr o leiaf o addysg gynnar yr wythnos yn ystod y tymor ysgol am 39 wythnos y flwyddyn. Mae'r Cynnig yn adeiladu ar yr hawl gyffredinol hon ac yn darparu cyfanswm o 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal am 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer plant tair a phedair oed rhieni sy'n gweithio.
- 3.4 Mae'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud ag elfen gofal plant y Cynnig (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cynnig") ac felly'n ymdrin â'r cyllid a fydd yn cael ei ddarparu ar gyfer plant cymwys rhieni sy'n gweithio.

Amcanion polisi

- 3.5 Prif ddiben y Bil hwn yw cefnogi economi Cymru drwy helpu rhieni, mamau yn arbennig, i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu'r oriau y maent yn eu gweithio. Bydd hyn yn cynyddu maint y gweithlu a hefyd yn gwella cyflogadwyedd rhieni, mamau yn arbennig.
- 3.6 Bydd y Bil hefyd yn cefnogi nifer o ddibenion ychwanegol a fydd yn cynnwys cynyddu'r dewis o gyflogaeth sydd ar gael i rieni, yn arbennig i famau, a gwella llesiant cymdeithasol plant a rhieni. Bydd hyn yn ei dro

³ Mae Maniffesto Llafur Cymru 2016 i'w gael yn:

<http://d3n8a8pro7vhmx.cloudfront.net/themes/56f26ee2ebad64d813000001/attachments/original/1460733418/Welsh-Labour-Manifesto2016.pdf?1460733418>.

⁴ Llywodraeth Cymru - Symud Cymru Ymlaen 2016-2021

<http://llyw.cymru/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf>

⁵ Llywodraeth Cymru - Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol:

<http://llyw.cymru/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

⁶ Llywodraeth Cymru - Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi

<http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf>

yn arwain at wella ansawdd bywyd y teulu a phrofiadau plentyndod a ddaw o gael mwy o incwm gwario.

- 3.7** Dengys tystiolaeth fod cost gofal plant peri pryder mawr i rieni sy'n gweithio, gan ddylanwadu ar gyllid yr aelwyd ac ansawdd bywyd y teulu. Rydym wedi gwrandao ar y pryderon hyn ac ar rieni sy'n dweud bod y costau hyn yn rhwystr sy'n eu hatal rhag dychwelyd i'r gwaith neu symud ymlaen yn ei gyrfa.
- 3.8** Mae darpariaeth o ansawdd ar gyfer y blynyddoedd cynnar sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch ac ar gael ar yr adegau pan fo'i hangen ar rieni, yn hollbwysig i hybu'r economi, gan helpu rhieni, yn enwedig mamau, i weithio a/neu gynyddu eu horiau gweithio. helpu rhieni, yn enwedig mamau, i weithio a/neu gynyddu'r oriau y maent yn eu gweithio. Dangoswyd hefyd mai ennill dau gyflog (aelwydydd cyplau) neu gyflogaeth (aelwydydd un rhiant) yw'r llwybr gorau allan o dlodi a'r ffordd orau o fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith. Bydd hyn, yn ei dro, yn cynyddu incwm aelwydydd ac yn codi safon byw'r teulu cyfan. Mae lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw ar aelwydydd heb waith hefyd yn flaenoriaeth, gan fod plant sy'n byw ar aelwydydd o'r fath mewn perygl penodol o fyw mewn tlodi..
- 3.9** Bydd ein cynnig gofal plant yn helpu teuluoedd drwy ddarparu cyfleoedd a chymorth iddynt. Bydd yn sicrhau bod gan blant le diogel a diddorol i ffynnu, dysgu a thyfu a bod bywyd yn y cartref yn well oherwydd llai o bwysau ar deuluoedd. Drwy helpu rhieni sy'n gweithio gyda chostau gofal plant, rydym yn dileu un o'r rhwystrau posibl rhag cael cyflogaeth, yn cynyddu dewisiadau o ran cyflogadwyedd ac yn dylanwadu ar incwm gwario.

Cymhwystra ar gyfer cyllid gofal plant

- 3.10** Mae'r Bil yn nodi'r meini prawf cymhwystra lefel uchel ar gyfer y cyllid. Bydd rheoliadau, ynghyd â chynllun gweinyddu, yn darparu rhagor o fanylion am y broses o weinyddu a gweithredu'r Cynnig. Mae'r Datganiadau o Fwriad y Polisi yn ymwneud â'r rheoliadau a'r cynllun bellach ar gael i'r Cynulliad graffu arnynt.
- 3.11** Bydd cyllid ar gael o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair oed hyd at y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed:
- lle mae'r ddau riant yn gweithio neu lle mae'r unig riant mewn teuluoedd unig rieni yn gweithio;
 - lle mae'r ddau riant yn ennill, ar gyfartaledd, cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol;

- lle mae rhieni'n hunangyflogedig neu ar gontractau dim oriau, ar yr amod eu bod eu henillion cyfartalog dros gyfnod o 3 mis yn bodloni'r meini prawf o ran isafswm enillion wythnosol;
- 3.12** Os yw o leiaf un rhiant ar yr aelwyd yn ennill £100,000 neu fwy'r flwyddyn (gros), ni fydd y teulu hwnnw'n gymwys i fanteisio ar yr oriau ychwanegol o ofal plant a ddarperir drwy'r Cynnig.
- 3.13** Oherwydd bod sawl math gwahanol o deulu a bod eu sefyllfaoedd a'u hamgylchiadau yn gallu bod yn gymhleth weithiau, bydd y cyllid ar gael mewn amgylchiadau eithriadol eraill gan gynnwys:
- lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ond bod un rhiant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb rhiant, mamolaeth neu fabwysiadu statudol;
 - lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ond bod un rhiant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gwaith dros dro ar dâl salwch statudol;
 - lle mae un rhiant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ac un rhiant yn anabl neu wedi'i analluogi yn seiliedig ar dderbyn budd-daliadau penodol neu'n ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu sylweddol yn seiliedig ar fudd-daliadau penodol a geir am ofalu. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd lle mae un rhiant yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a'r rhiant arall yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:
 - Budd-dal analluogrwydd
 - Lwfans gofalwyr
 - Lwfans anabledd difrifol
 - Lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n seiliedig ar incwm
 - yn y 12 mis cyntaf lle mae rhiant newydd ddod yn hunangyflogedig ac y mae eu busnes o fewn y cyfnod dechrau cychwynnol. Bydd angen i rieni gofrestru'r busnes gyda Chyllid a Thollau EM a darparu tystiolaeth eu bod yn hunangyflogedig er mwyn bod yn gymwys, ond ni fydd angen iddynt fodloni'r meini prawf o ran isafswm enillion yn ystod y cyfnod hwn;
 - ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau os ydynt yn bodloni'r diffiniad o riant sy'n gweithio.

Profi'r cynnig

- 3.14** Dechreuodd y broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar ym mis Medi 2017 yn Sir Fôn, Gwynedd, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Ers Medi 2018, mae Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Wrecsam a Conwy a Thorfaen wedi ymuno â'r awdurdodau hyn, ac ymunodd Caerdydd ym mis Hydref 2018. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r cynnig mewn awdurdodau eraill yn 2019.
- 3.15** Rydym wedi cyflwyno newid i'r trefniadau ar gyfer yr ail flwyddyn o weithredu'r Cynnig yn gynnar. Yn y flwyddyn gyntaf, gwnaeth pob awdurdod lleol ymgymryd â'r broses lawn eu hunain, gan gynnwys asesu ceisiadau a phrosesu taliadau i ddarparwyr gofal plant. Ar gyfer y cyfnod sy'n weddill, bydd yr awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth, gydag un awdurdod yn derbyn ac yn prosesu ceisiadau ar ran awdurdodau eraill ac yn gwneud y taliadau perthnasol.
- 3.16** O ganlyniad i'r trefniadau newydd hyn, rydym wedi ychwanegu pumed opsiwn i'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

Evaluation

- 3.17** Mae cytundeb gwerthuso a monitro annibynnol yn ei le a fydd yn darparu adborth a gwybodaeth werthfawr o'r broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar. Bydd y gwerthusiad hwn yn cynnwys:
- pa mor effeithiol y mae'r cynnig yn cael ei ddarparu ar gyfer plant a rhieni yn ardaloedd y gweithredwyr cynnar;
 - yr effaith y mae'r Cynnig yn ei chael ar gyflogadwyedd rhieni, eu llesiant ac incwm gwario;
 - effaith y Cynnig ar y sector gofal plant, gan ystyried yr effaith ar wahanol fathau o ddarparwyr gofal plant, newidiadau i arferion busnes ac effaith ymyrraeth ar y farchnad gofal plant.
- 3.18** Bydd y broses werthuso'n ystyried sut mae elfennau gofal plant ac addysg gynnar y 30 awr yn cyd-fynd â'i gilydd, ac yn nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol.
- 3.19** Cafodd y Pwyllgor Cyfrifol friff cyfrinachol ar rai o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad ar 24 Hydref i gefnogi ei waith craffu ar y Bil. Rhagwelir y bydd adroddiad y gwerthusiad yn cael ei gyhoeddi ar 22 Tachwedd 2018 neu tua'r adeg honno.
- 3.20** Bydd gwerthusiad annibynnol ar wahân yn cael ei gomisiynu o'r broses o gyflwyno'r cynnig yn genedlaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn Adran 10 - Adolygu ar ôl gweithredu.

Diben y ddeddfwriaeth

- 3.21** Diben y ddeddfwriaeth yw rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymwys rhieni sy'n gweithio. Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau ar y trefniadau ar gyfer gweinyddu a gweithredu'r cynllun cyllido.
- 3.22** Prif ffocws y Bil yw galluogi casglu ac ystyried data perthnasol er mwyn dyfarnu cymhwystra person ar gyfer y Cynnig. I'r perwyl hwn, bwriedir y bydd y Rheoliadau a wneir o dan y Bil yn ei gwneud yn bosibl i adrannau perthnasol y Llywodraeth rannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru at ddibenion dyfarnu cymhwystra person a throsglwyddo'r data perthnasol a'r dyfarniadau yn ôl y gofyn.
- 3.23** Bydd y Bil hefyd yn caniatáu gwneud trefniadau i osod cosbau mewn sefyllfaoedd lle mae ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu'n ymddwyn yn anonest. Rhaid i'r Rheoliadau a wneir o dan y Bil ddarparu trefniadau er mwyn i ymgeiswyr allu gofyn am adolygu cosb neu benderfyniad ynghylch eu cymhwystra, a chreu proses ar gyfer apelio yn erbyn cosb neu benderfyniad ynghylch cymhwystra.
- 3.24** Mae'r Bil hefyd yn rhoi'r pŵer i wneud darpariaeth o fewn y rheoliadau i greu cosbau troseddol ar gyfer datgelu gwybodaeth am berson penodol ar gam, gan gydnabod y gofyniad i gadw gwybodaeth a geir gan drydydd parti ac ymgeiswyr yn gyfrinachol.
- 3.25** Canlyniad hyn fydd un system gyson a chenedlaethol ar-lein ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwystra y bydd modd i ymgeiswyr ei defnyddio i wneud cais am gyllid gofal plant ar gyfer eu plentyn, a llinell ffôn i'r rheini nad ydynt yn gallu defnyddio'r system ar-lein. Dylai hyn helpu i osgoi sefyllfa yng Nghymru lle mae pob Awdurdod Lleol yn gwirio cymhwystra mewn ffordd wahanol, a bydd yn golygu bod pob ymgeisydd ar draws Cymru'n cael mynediad i'r un gwasanaeth a bod rheolau'r cynllun yn cael eu cymhwyso'n gyson i bawb.
- 3.26** Bydd ymgeiswyr yn gallu mewngofnodi i borthol lle bydd gofyn iddynt nodi gwybodaeth am eu hunain a'u plentyn. Bydd yr "awdurdod perthnasol" yn gwirio amgylchiadau'r rhiant a'r plentyn yn erbyn setiau data amrywiol, gan gynnwys data amser real, ac yn dyfarnu a yw plentyn y rhiant dan sylw yn gymwys ar gyfer cyllid gofal plant. Yn yr achosion symlaf, bydd yr ymgeiswyr yn cael gwybod yn gyflym a ydynt yn gymwys ai peidio.
- 3.27** Bydd cosbau'n cael eu rhoi os yw ymgeiswyr yn gwneud ceisiadau ffug neu'n darparu gwybodaeth ffug, ond bydd modd gofyn am adolygu'r cosbau hyn drwy broses apelio. Yn ogystal, bydd y Bil yn ei gwneud yn bosibl i ymgeiswyr ofyn bod penderfyniadau ynghylch eu cymhwystra'n cael eu hadolygu ac apelio yn eu herbyn.

3.28 Ystyriwyd pum opsiwn ar gyfer darparu system ymgeisio a gwirio cymhwysra, ac mae'r costau a'r manteision cysylltiedig wedi'u hamlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y system ymgeisio a gwirio cymhwysra yn cael ei gweithredu gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi (CThEM) (fel yr "awdurdod cyfrifol" a ddewiswyd), gan ddefnyddio ei Gwasanaeth Gofal Plant. Mae'r gwasanaeth hwn yn gallu cael gafael ar setiau data ategol perthnasol ac yn cynnig y gwerth gorau am arian. Bydd y ceisiadau gyfer y cynllun cyllido gofal plant yn gweithio mewn ffordd debyg i'r system sydd ar waith ar hyn o bryd yn Lloegr ar gyfer eu Cynnig Gofal Plant nhw, sydd wedi'i phrofi ers 2017, a Gofal Plant Di-dreth.

3.29 Y bwriad yw addasu'r system hon i ddiwallu anghenion y Cynnig i Gymru. Mae defnyddio system CThEM yn cynnig nifer o fanteision, gan gynnwys:

- galluogi gwiriadau cymhwysra i gael eu gwneud ar sail data ar y sefyllfa ar yr union adeg honno;
- darparu system a dull gweithredu cyson ar draws Cymru gyfan;
- rhoi penderfyniadau cyflym i rieni ynghylch eu cymhwysra;
- lleihau'r risg yn ymwneud â diogelwch data a thwyll;
- profiad CThEM, drwy eu Gwasanaeth Gofal Plant, o weinyddu'r gwiriadau cymhwysra ar gyfer y cynllun Gofal Plant Di-dreth a'r Cynnig gofal plant yn Lloegr. Erbyn i'n Cynnig ni gael ei gyflwyno'n llawn, bydd ganddynt dair blynedd o brofiad a dysgu.

4 Ymgynghori

- 4.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n helaeth â rhieni, darparwyr ac Awdurdodau Lleol ar y Cynnig, a bydd y gwersi a ddysgwyd o'r broses weithredu gynnar yn parhau i lywio a dylanwadu ar rai agweddau ar y polisi hirdymor.
- 4.2** Ym mis Awst 2016, lansiodd Llywodraeth Cymru'r ymgyrch #TrafodGofalPlant (cam 1). Gwnaeth yr ymgyrch hon dargedu rhieni a darparwyr gofal plant er mwyn deall yn fwy manwl y rhwystrau y mae rhieni'n eu hwynebu wrth geisio defnyddio gofal plant a beth sy'n bwysig iddynt am y Cynnig, a sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol o'r Cynnig ac yn ei ddeall. Cynhaliwyd arolwg ymhlith rhieni a gwahodd cwestiynau. Cynhaliwyd sioeau teithiol hefyd o fewn lleoliadau gofal plant mewn 15 o drefi ar draws Cymru i gael sgysiau wyneb yn wyneb. Yn ogystal, cynhaliwyd digwyddiadau rhanbarthol, grwpiau ffocws a gweminarau i ymgysylltu â darparwyr gofal plant. Comisiynodd Llywodraeth Cymru hefyd gyfres o grwpiau ffocws manwl ar gyfer rhieni i ddeall y defnydd a wneir o ofal plant ar hyn o bryd a chael eu barn ar y Cynnig.
- 4.3** Erbyn Awst 2017, roedd dros 6,000 o bobl wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y Cynnig, gan gynnwys rhieni a darparwyr gofal plant. Yn dilyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r prif negeseuon a gafwyd gan y rhanddeiliaid ac wedi amlinellu'r camau y bwriedir eu cymryd mewn perthynas â'r pwyntiau a godwyd⁷.
- 4.4** Ym mis Gorffennaf 2016, gwahoddwyd Awdurdodau Lleol i fynegi diddordeb mewn treialu'r Cynnig. Dewiswyd yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar yn seiliedig ar yr wybodaeth hon, a chynhaliwyd gweithdai misol i ddatblygu manylion y Cynnig. Gwahoddwyd rhieni yn ardaloedd yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar i gyflwyno ceisiadau ym mis Gorffennaf 2017, a dechreuodd y cynllun peilot ym mis Medi 2017.
- 4.5** Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â'r Awdurdodau Lleol hyn i gael adborth rheolaidd ac yn ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol eraill er mwyn paratoi ar gyfer ei gyflwyno'n ehangach. Yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar yw'r ardaloedd peilot ar gyfer y Cynnig hwn, ac maent yn parhau'n rhanddeiliaid pwysig wrth i'r Cynnig symud ymlaen. Maent yn darparu adborth gwerthfawr i Lywodraeth Cymru ar sut mae'r Cynnig yn cael ei ddarparu ac unrhyw effeithiau y mae'n ei chael.
- 4.6** I barhau â'r ymgysylltu hwn, lansiodd cam 2 ymgyrch #TrafodGofalPlant ym mis Hydref 2017. Mae'r cam hwn yn canolbwyntio ar (ond heb fod yn

⁷ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/talk-childcare/?lang=cy>

gyfyngedig i) ddarparwyr gofal plant er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn ymwybodol o'r Cynnig, ond ar lefel genedlaethol yn bennaf. Mae hefyd yn dwyn ynghyd yr hyn a ddysgwyd o'r broses weithredu gynnar a sylwadau'r rheini a gymerodd ran. Cynhaliwyd 5 digwyddiad i ddarparwyr yn ystod haf 2018, a bwriedir cynnal 4 digwyddiad pellach yn yr hydref. Bydd cam 2 ymgyrch #TrafodGofalPlant hefyd yn ceisio ymgysylltu â chymunedau sy'n fwy anodd eu cyrraedd.

- 4.7** Gwahoddwyd aelodau o Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant i sesiwn ymgysylltu ar 23 Tachwedd 2017 i drafod rhai o'r opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru o ran gweinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra ar gyfer cyllido gofal plant. Roedd y sesiwn yn gyfle i drafod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Comisiynydd Plant; Arolygiaeth Gofal Cymru, CWLWM⁸, a chynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol, rai o fanteision ac anfanteision y pum opsiwn a amlinellir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol a phwrpas y Bil arfaethedig. Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid wedi cael diweddariadau rheolaidd ar y Bil drwy gydol 2018. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiwn 'gwersi a ddysgwyd' â'r Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ar 17 Ionawr 2018 a oedd yn ddefnyddiol i ddeall rhai o'r heriau a'r materion sy'n gysylltiedig â'r dull gweithredu presennol ar gyfer gwirio cymhwysra ar gyfer cyllid gofal plant a ffyrdd eraill o gyflawni'r amcan polisi hwn.
- 4.8** O ystyried natur dechnegol y Bil a'i apêl gyfyngedig i'r cyhoedd yn gyffredinol, teimlwyd nad oedd hi'n briodol i ymgymryd ag ymgynghoriad agored ar Fil drafft. Trafodwyd amcanion polisi'r Bil yn weddol fanwl ag aelodau Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant ym mis Tachwedd 2017 a rhannwyd tudalen "cynnwys" y Bil ag aelodau'r un grŵp ym mis Mawrth 2018. Roedd hyn yn gyfle i swyddogion esbonio i'r prif bartïon a chanddynt fuddiant gwmpas y Bil, pam yr oedd cyflwyno deddfwriaeth yn angenrheidiol a'r hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn ceisio ei gyflawni drwy wahanol adrannau'r Bil.
- 4.9** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n briodol â'r rhanddeiliaid y mae'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, yn enwedig Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr Adran Addysg a'r Trysorlys. Mae CThEM, yn enwedig, yn bartner allweddol sydd wedi bod yn rhan o bob cam o'r broses o ddatblygu'r Bil a bydd y cydweithio hwn yn parhau. Mae drafftiau llawn o'r Bil wedi'u rhannu â CThEM, Swyddfa Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Gwnaed diwygiadau i ymdrin â gofynion CThEM, yn enwedig o ran natur y porth gwybodaeth a'r darpariaethau'n ymwneud â datgelu ar gam eu gwybodaeth am gwsmeriaid. Cyflwynwyd gwelliannau gan y Llywodraeth hefyd yn ystod Cyfnod 2 y Bil yn sgil adborth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, gyda golwg ar sicrhau bod y darpariaethau yn adran 4 y Bil yn ymwneud â

⁸ Mae Cwlwm yn dwyn ynghyd y pum sefydliad gofal plant yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaeth integredig dwyieithog sy'n ceisio sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer plant a theuluoedd ar draws Cymru. Dyma'r sefydliadau partner Cwlwm: Mudiad Meithrin; Clybiau Plant Cymru; Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd; y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru.

darparu “gwybodaeth gymwys” i Weinidogion Cymru gan drydydd partiön yn gyson.

4.10 Cafwyd trafodaeth benodol â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch effaith y Bil ar y system gyfiawnder.

5 Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) yn amlinellu'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

- (i). yr unigolyn neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- (ii). ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- (iii). priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- (iv). y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â'r rheswm pam y tybir ei bod yn briodol.

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle bernir bod hynny'n briodol. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar gyfer darpariaethau'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru).

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
1(2)(a) 1(2)(b) 1(2)(c) 1(2)(d)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pwerau gwneud rheoliadau sydd yn yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd, ymhlith pethau eraill, yn amlinellu'r ddarpariaeth fanwl ynghylch pwy sy'n blentyn cymwys i rieni sy'n gweithio (adrannau 1(2)(a) a 1(2)(b) neu'n pennu unrhyw amodau eraill y bydd yn rhaid eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cyllid (adran 1(2)(c)).	Cadarnhaol	Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol gan y bydd y rheoliadau hyn yn amlinellu'r meini prawf cymhwysra manwl ar gyfer y Cynnig ac felly bydd yn golygu goblygiadau sylweddol o ran polisi.
1(6)			Mae'r pŵer yn adran 1(2)(d) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth i'w gwneud hi'n ofynnol bod yn rhaid i berson sy'n gwneud cais wneud datganiad bod yr holl ofynion a bennwyd yn y rheoliadau wedi'u bodloni a bod yr holl ofynion hynny yn cael eu bodloni o hyd. Mae'r pŵer yn adran 1(6) yn caniatáu		

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch cymhwysra ymgeiswyr sy'n gwneud cais am gyllid megis pennu pryd ystyrir bod plentyn yng Nghymru; pwy sy'n "bartner" a phryd ystyrir bod person yn gwneud "gwaith am dâl", etc.</p> <p>Gan fod yn rhaid cwmpasu nifer fawr o amgylchiadau gwahanol, ni fyddai'n briodol nodi'r holl fanylion yn y Bil.</p> <p>Bydd defnyddio rheoliadau yn golygu bod Gweinidogion Cymru'n gallu ymateb yn amserol ac yn hyblyg ac yn sicrhau nad yw'r ddeddfwriaeth yn dyddio nac yn gorfod cael ei diwygio'n gynnar drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.</p>		
2(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'r adran hon yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn rhagnodi'r trefniadau ar gyfer gweinyddu'r cyllid.</p> <p>Bydd y rheoliadau, er enghraifft,</p>	Cadarnhaol	Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn. Gall y rheoliadau hyn, er enghraifft, wneud

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>(ymysg pethau eraill) yn cynnwys darpariaeth ynghylch y materion y cyfeirir atynt yn adrannau 3-7 o'r Bil. Rhagwelir y byddant yn gwneud darpariaeth, er enghraifft, am rannu gwybodaeth er mwyn dyfarnu cymhwysra'n brydlon; am ddatgelu ymlaen wybodaeth ac adolygiadau o benderfyniadau ac apelau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.</p> <p>Yn benodol, mae adran 7 yn darparu y gall y rheoliadau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud o dan adran 2(1) roi pwerau neu osod rhwymedigaethau ar Awdurdodau Lleol (adran 7(1)). Mae adran 7(2) yn darparu y gall y rheoliadau a wnaed o dan adran 2(1) roi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau a gall hefyd wneud darpariaeth a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn unol â'r pŵer hwnnw.</p> <p>Mae angen i'r trefniadau yn fod yn</p>		<p>darpariaeth a fydd yn ymdrin â rhannu gwybodaeth rhieni, ac yn creu trosedd ar gyfer rhannu gwybodaeth o'r fath am berson penodol yn anghyfreithlon.</p> <p>Gallant hefyd roi pwerau a dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol.</p> <p>Mae ystyriaethau o'r fath yn bwysig o ran llywodraethu'r Cynnig ac felly'n addas ar gyfer y weithdrefn gadarnhaol.</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			ddigon hyblyg i gymryd i ystyriaeth unrhyw wersi a ddysgwyd o'r broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar mewn rhai ardaloedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn sicrhau bod		
10	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r adran hon yn ei gwneud yn bosibl diwygio uchafswm y gosb ariannol y cyfeirir ati yn adran 3(6).	Cadarnhaol	Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn gan y byddai'n golygu diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac yn arwain at gynnydd i gosb ariannol.
12(2)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Yn addas ar gyfer gorchymyn gan fod y ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn bosibl i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cychwyn y Bil.	Dim gweithdrefn	Mae gorchymynion cychwyn yn dechnegol eu natur.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil, a gellir ei weld isod.

- 6.2. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil a allai olygu bod arian yn cael ei wario o Gronfa Gyfunol Cymru.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

CRYNODEB – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

BIL GWEINYDDU CYLLID GOFAL PLANT (CYMRU)		
<p>Opsiwn a ffefrir: Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn derbyn ceisiadau ar gyfer y Cynnig, yn gwirio cymhwystra'r ymgeiswyr ac yn hysbysu ymgeiswyr am y canlyniad ar ran Llywodraeth Cymru. Amlinellir manylion yr opsiwn ar dudalennau 31-33 o'r Asesiad, ac amlinellir y costau cysylltiedig yn Atodiadau 5-8.</p>		
Cam: Bil Drafft	Cyfnod arfarnu: 2019/20 - 2024/25	Blwyddyn y sail brisiau: 2017/18
Cyfanswm y gost Cyfanswm: £10,526,000 Gwerth presennol: £9,516,000	Cyfanswm y budd-daliadau Cyfanswm: £0 Gwerth presennol: £0	Gwerth presennol net: £9,516,000

Cost weinyddol

<p>Costau: Pe bai CThEM yn gweithredu system ymgeisio a gwirio cymhwystra ar gyfer y Cynnig, byddai'r costau gweinyddol yn cynnwys costau pontio ar gyfer addasu'r system bresennol i dderbyn ceisiadau yn Gymraeg a darparu allbynnau'n ymwneud yn benodol â Chymru, a hefyd sefydlu swyddogaethau cymorth cysylltiedig fel desg gymorth ddwyieithog. O'r gost pontio o £3,585,000, mae £3,174,000 yn gost cyfalaf a £411,000 yn gost refferiw. Byddai costau rheolaidd hefyd ar gyfer cynnal y gwiriadau, cynnal a chadw'r system a darparu swyddogaeth gymorth barhaus. Llywodraeth Cymru fyddai'n ysgwyddo'r costau hyn.</p>			
Pontio: £3,585,000	Rheolaidd: £5,533,000	Cyfanswm: £9,118,000	Gwerth presennol: £8,288,000
<p>Arbedion costau: Mae'r gost pe bai CThEM yn gweithredu system ymgeisio a gwirio cymhwystra ar ran Llywodraeth Cymru wedi'u mesur yn erbyn yr opsiwn sylfaenol lle mae'r Awdurdodau Lleol yn prosesu ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra ymgeiswyr, sef yr opsiwn a ddefnyddir ar hyn o bryd wrth weithredu'r Cynnig yn gynnar. Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae disgwyl i gost yr opsiwn CThEM fod yn llai na'r opsiwn sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i adlewyrchu yn y ffigurau yn y crynodeb hwn gan y byddai'n rhoi cost negyddol, a gallai hyn fod yn gamarweiniol.</p>			
Pontio: 0	Rheolaidd: 0	Cyfanswm: 0	Gwerth Presennol: £0
Cost weinyddol net: £9,118,000			

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Costau cydymffurfio

Y costau cydymffurfio yw'r baich gweinyddol a wynebwr gan ymgeiswyr o ran yr amser a dreulir yn cwblhau cais drwy broses CThEM. Cyfrifwyd yr amser fel gwerth ariannol (amlinellir y dull a ddefnyddiwyd ar dudalen 36). Nid ddisgwylir cosbau (gweler paragraff 6.9) felly amcangyfrifir y bydd y gost yn £0.			
Pontio: 0	Rheolaidd: £1,408,000	Cyfanswm: £1,408,800	Gwerth Presennol: £1,228,000

Costau eraill

Nid oes unrhyw gostau eraill wedi'u mesur yn y dadansoddiad.			
Pontio: 0	Rheolaidd: 0	Cyfanswm: 0	Gwerth Presennol: 0

Costau ac anfanteision na chyfrifwyd

<p>1 - Cafodd system bresennol CThEM, sef y Gwasanaeth Gofal Plant, ei datblygu'n wreiddiol i gynnal gwiriadau cymhwysra ar gyfer cynllun Gofal Plant Di-dreth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Wedyn, cafodd ei haddasu i gynnal gwiriadau cymhwysra ar gyfer y cynnig gofal plant yn Lloegr a weinyddir gan yr Adran Addysg. Felly, mae yna risg bod yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Addysg yn cael eu gweld fel y prif gwsmeriaid ac felly'n gweithredu fel hyrwyddwr unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.</p> <p>2 - Mae'r meini prawf cymhwysra sylfaenol yn seiliedig ar bolisi Lloegr - byddai unrhyw wŷro o'r meini prawf hynny yn golygu cost ac efallai oedi.</p> <p>3 - Cafwyd problemau perfformiad o ran y system Gofal Plant Di-dreth pan gafodd ei chyflwyno'n llawn - nes iddynt gael eu datrys; mae yna risg o ddefnyddio system â phroblemau perfformiad.</p> <p>4 - Ni fyddai system CThEM yn gweinyddu'r ceisiadau ar gyfer y 10 awr o addysg y mae gan bob plentyn tair a phedair oed hawl iddynt Felly, bydd angen dwy elfen i'r broses ymgeisio, lle mae pob rhiant yn cyflwyno cais i'r Awdurdod Lleol am le mewn addysg a rhieni cymwys yn cyflwyno cais i CThEM ar gyfer y Cynnig.</p>
--

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Manteision

1 - Mae CThEM wedi bod yn gweinyddu'r gwiriadau cymhwysra ar gyfer y cynllun Gofal Plant Di-dreth a'r cynnig gofal plant yn Lloegr drwy eu Gwasanaeth Gofal Plant ers canol 2017, a bydd ganddynt dair blynedd o brofiad o ymdrin ag ymholiadau a phryderon erbyn i'r Cynnig gael ei gyflwyno'n llawn. 2 - Cadarnhawyd protocolau a chytundebau eisoes rhwng CThEM ac adrannau perthnasol eraill o ran mynediad at ddata ac maent yn gweithredu'n effeithiol.

3 - Mae'r problemau o ran diogelwch data yn llai o lawer na'r opsiynau eraill gan nad oes angen cyflwyno unrhyw dystiolaeth ddogfenol.

4 - Mae risg o dwyll wedi'i leihau'n sylweddol gan fod modd gwirio cymhwysra unigolyn ar sail ei sefyllfa ar yr union adeg honno, gan ddefnyddio data nad oes modd eu camgyfleu na'u newid gan rieni sy'n ceisio gwneud cais drwy dwyll. Gellir ailgadarnhau cymhwysra pob cyfranogwr yn rheolaidd, ac nid ar sampl o 20% yn unig fel yn Opsiwn 1.

Cyfanswm: Amherthnasol

**Gwerth Presennol:
Amherthnasol**

Tystiolaeth allweddol, rhagdybiaethau ac ansicrwydd

Mae'r dystiolaeth allweddol i gefnogi'r gwaith hwn yn cynnwys y modelau cost a ddarparwyd gan ymgynghorwyr annibynnol⁹. Mae'r manylion i'w gweld yn yr Atodiadau. Defnyddiodd yr ymgynghorwyr dybiaethau ac amcangyfrifon o faint y rhaglen, y broses ymgeisio a'r systemau TG a fydd yn cael eu defnyddio. Crëwyd eu modelau cost drwy ddefnyddio amcangyfrifon cost a feincnodwyd ar gyfer y diwydiant, data a ddarparwyd gan CThEM a thybiaethau ar sail cyfweiliadau â Llywodraeth Cymru, aelodau'r prosiect ac Awdurdodau Lleol.

⁹ Gartner Consulting

Cyflwyniad yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.3. Bydd y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymwys rhieni sy'n gweithio. Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau ar y trefniadau ar gyfer gweinyddu a gweithredu'r cynllun cyllido, ac yn benodol ar gyfer casglu ac ystyried data perthnasol er mwyn dyfarnu cymhwystra person ar gyfer y Cynnig.
- 6.4. Mae nifer o opsiynau ar gyfer sefydlu system a fyddai'n derbyn ac yn ystyried ceisiadau gan rieni, ac yn cadarnhau cymhwystra ar gyfer y Cynnig. I sicrhau aseiad clir o'r opsiynau, comisiynwyd ymgynghoriaeth annibynnol¹⁰ i ddarparu costau a manteision. I ddechrau, gwnaethant asesu pedwar opsiwn ar gyfer ystyried ceisiadau a chadarnhau cymhwystra. Yn ddiweddarach, ychwanegwyd pumed opsiwn sy'n adlewyrchu'r cynlluniau gweithredu cynnar¹¹. Mae'r opsiwn hwn wedi'i ystyried yn yr aseiad diwygiedig hwn (gweler Opsiwn 5). Defnyddiodd yr ymgynghoriaeth ystod o ffynonellau data, gan gynnwys safonau'r diwydiant a gwybodaeth a ddarparwyd gan CThEM a'r Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, i gynhyrchu eu model costio a'r ffigurau a ddefnyddiwyd drwy gydol yr aseiad hwn.
- 6.5. Defnyddiwyd cyfnod arfarnu o chwe blynedd yn y dadansoddiad sy'n cwmpasu'r cyfnod 2019-20 i 2024-25. Ystyrir bod y cyfnod hwn yn ddigonol i gyfrifo'r costau pontio y byddai'n rhaid eu talu ar unwaith a dangos y costau blynyddol parhaus. Mae'r holl gostau yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf, ond efallai nad yw rhai o'r cyfansymiau yn y tablau'n cyfateb oherwydd hyn. Mae'r costau yn symiau gostyngol ar sail cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys Ei Mawrhydi o 3.5%.

Cymhwystra

- 6.6. Mae'r Bil yn nodi'r meini prawf cymhwystralefel uchel ar gyfer y cyllid. Bydd rheoliadau, ynghyd â chynllun gweinyddu, yn darparu rhagor o fanylion am y broses o weinyddu a gweithredu'r Cynnig. Mae Adran 3, Rhan 1 o'r ddogfen hon yn disgrifio diben ac effaith y ddeddfwriaeth fwriedig. Manylir ar gymhwystra ym mharagraff 3.10.
- 6.7. Mae'r Aseiad yn tybio y bydd angen gwirio rhieni yn erbyn y meini prawf hyn ac y bydd unrhyw achosion cymhleth neu eithriadol yn cael eu prosesu yn unol â'r canllawiau.

¹⁰ Penodwyd Gartner Consulting. Mae Gartner yn darparu mewnwelediad ymchwil a data meincodi er mwyn creu modelau cost ar gyfer prosiectau TG i fusnesau.

¹¹ Y bwriad wrth weithredu'r cynnig yn gynnar mewn sampl o ardaloedd daearyddol yw profi'r broses o ddarparu'r cynnig. Caiff hyn ei werthuso er mwyn dysgu gwersi i lywio polisi a phenderfyniadau gweithredol.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Apeliadau

- 6.8. Os bernir nad ydynt yn gymwys, bydd gan bob ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Ym mhob un o'r pum opsiwn, byddai'r apeliadau'n golygu mynd ati'n gyntaf i adolygu'r achos, sydd wedi'i gynnwys yn y model cost..
- 6.9. Os bydd angen mynd â'r cais ymhellach, caiff ei atgyfeirio i'r awdurdod perthnasol. Gallai hyn fod ar ffurf apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn achos CThEM, neu baneli apelio yn achos Awdurdodau Lleol.
- 6.10. Caiff apeliadau'n ymwneud â'r Cynllun Gofal Plant Di-dreth a'r cynnig gofal plant yn Lloegr eu hatgyfeirio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Ar ôl ystyried nifer yr apeliadau a'r costau cysylltiedig, a'u graddio yn ôl y nifer tebygol o rieni a phlant cymwys yng Nghymru, ystyrir bod nifer yr apeliadau a fydd yn cael eu hatgyfeirio drwy'r broses hon yn un cais bob 6 mis felly gan yr ystyrir y bydd y gost gysylltiedig yn fach iawn, nid ydynt wedi'u nodi ar wahân o fewn y costau. Gan nad yw cost yr apeliadau wedi'i mesur (ac yn anhysybys felly), ni ddisgwylir i'r gost fod yn wahanol rhwng y gwahanol opsiynau.

Cosbau


- 6.11. Nid oedd unrhyw gosbau sifil wedi'u rhoi ar gyfer darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol mewn perthynas â'r Cynnig yn Lloegr adeg ysgrifennu'r papur hwn. O ystyried bod poblogaeth Cymru yn llai o lawer na Lloegr, rydym wedi tybio ei bod yn annhebygol iawn y bydd unrhyw gosbau sifil yng Nghymru, ac felly disgwylir i'r cost cysylltiedig fod yn sero.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Cwmpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.12. Mae pob opsiwn a amlinellir ac a ystyrir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn proses debyg ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwysra, sydd wedi'i mapio isod.

Ffigur 1: Diagram o'r broses ymgeisio a gwirio cymhwysra



Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

- 6.13. Fel y mae ffigur 1 yn dangos, mae'r broses yn dechrau pan fydd rhiant yn gwneud cais i fanteisio ar y Cynnig, ac yn gwirio eu cymhwystra drwy ddefnyddio'r gwirydd ar-lein. Fel rhan o'r broses ymgeisio, caiff cymhwystra'r rhiant a'r plentyn ei wirio yn erbyn tystiolaeth, boed wedi'i chyflwyno ar ffurf ddogfennol gan y rhieni neu drwy ddefnyddio ffynonellau data gweinyddol sy'n bodoli eisoes fel data Talu Wrth Ennill (PAYE) neu ddata'n ymwneud â budd-daliadau neu'r dreth gyngor.
- 6.14. Pan fydd cymhwystra rhiant wedi'i ddyfarnu, caiff ei hysbysu am y canlyniad. Mewn rhai achosion, bydd cadarnhau cymhwystra yn broses syml a bydd modd rhoi gwybod i'r rhiant yn gyflym. Mewn amgylchiadau eraill sy'n fwy cymhleth, efallai bydd angen gofyn i'r rhieni am wybodaeth ychwanegol i brofi eu cymhwystra e.e. wrth ddelio ag achosion lle ceir meini prawf cymhwystra a ystyrir yn eithriadol.
- 6.15. Ar ôl cael ei hysbysu, bydd y rhiant yn cael cadarnhad i'w roi i'r darparwr gofal plant i ddangos ei fod yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig.
- 6.16. Mae angen mecanwaith ar y system hefyd i gadarnhau bod y rhieni sy'n cael mynediad at y Cynnig yn parhau i fod yn gymwys. Bydd angen cynnal ailwiriad bob tymor ar gyfer pob ymgeisydd. Ni ddisgwylir y bydd angen i ymgeiswyr ailgyflwyno ceisiadau llawn fel rhan o'r broses hon, ac ni fydd disgwyl i'r holl ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ddogfennol i ddangos eu bod yn parhau i fod yn gymwys. Fodd bynnag, disgwylir y bydd hapwiriadau'n cael eu cynnal ar leiafswm o 20% o'r rhieni hynny sy'n ailgadarnhau eu cymhwystra, lle bydd tystiolaeth bellach yn cael ei cheisio i ddangos eu bod yn parhau i fod yn gymwys.
- 6.17. Mae angen mecanwaith ar gyfer apeliadau hefyd pe byddai'r rhieni'n anghytuno â'r penderfyniad sydd wedi'i wneud ynghylch eu cymhwystra.
- 6.18. Mae cwmpas yr Asesiad hwn yn dilyn y broses hon - mae'n dechrau lle mae rhiant yn mynd ati i wneud cais ac yn dod i ben lle mae cymhwystra'r rhiant wedi'i gadarnhau neu ei wrthod.
- 6.19. Nid yw'r cam lle mae darparwr gofal plant dewisedig y rhieni'n gallu cadarnhau cymhwystra'r plentyn o fewn cwmpas yr Asesiad hwn.
- 6.20. Yn Lloegr, yr Adran Addysg sy'n rheoli'r cam lle mae darparwr gofal plant yn gwirio cymhwystra rhieni ar gyfer cyllid o dan eu cynnig gofal plant nhw. Mae ganddynt system ddilysu lle gall Awdurdodau Lleol a rhai darparwyr gadarnhau bod cymhwystra rhieni'n parhau i fod yn ddilys cyn eu bod yn cynnig y gofal plant iddynt neu'n gwneud taliadau ar gyfer y gofal plant. Dyma un opsiwn posibl sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ei archwilio ar gyfer y rhan hon o'r broses. Fodd bynnag, nid oes angen penderfyniad yng nghwmpas y Bil hwn, ac felly nid yw wedi'i ystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan nad yw'r opsiynau amgen wedi'u harchwilio'n llawn eto.

7 Opsiynau

7.1 Mae'r pum opsiwn yn dilyn y broses a amlinellir yn ffigur 1 ond mae'r dulliau gweithredu a'r asiant weithredu'n wahanol. Yr opsiynau hyn yw:

Opsiwn 1 - Awdurdodau Lleol yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

Opsiwn 2 – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

Opsiwn 3 - Llywodraeth Cymru'n derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

Opsiwn 4 - Parti wedi'i gontractio yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

Opsiwn 5 – 10 Awdurdod Gweithredu'n derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra ar ran pob Awdurdod Lleol

7.2 Yr opsiwn a ffeirir yw Opsiwn 2 sy'n golygu bod CThEM yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra. Mae Opsiwn 5 wedi'i ychwanegu i'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn adlewyrchu'r cynlluniau gweithredu cynnar presennol. Cafodd yr ychwanegiad hwn ei ddrafftio'n wreiddiol gan ddadansoddwyr o Lywodraeth Cymru, ond cafodd y dull gweithredu a'r ffigurau terfynol eu diwygio yn dilyn trafodaethau â'r ymgynghoriaeth annibynnol. I sicrhau cysondeb, gwnaed newidiadau i'r costau ar gyfer rheoli achosion yn Opsiwn 1 yn dilyn cyngor yr ymgynghorwyr annibynnol (caiff hyn ei egluro isod). Mae opsiwn 5 bellach yn cael ei ystyried fel yr opsiwn sylfaenol.

Opsiwn 1 - Awdurdodau Lleol yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

7.3 Opsiwn 1 oedd yr opsiwn 'gwneud dim' yn wreiddiol. Mae opsiwn 1 yn parhau'n opsiwn hyfyw, ond nid dyma'r dull bwriedig ar gyfer gweithredu'r cynnig yn gynnar cyn ei gyflwyno'n genedlaethol (a amlinellir yn Opsiwn 5 – sydd bellach yn cael ei ystyried fel yr opsiwn 'gwneud dim'). Pe na bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno, gallai opsiwn 1 gael ei roi yn ei le o hyd. Mae hyn yn debygol os bernir bod y dull gweithredu rydym yn ei brofi (Opsiwn 5) yn llai ffafriol.

7.4 Er y byddai pob awdurdod yn cynnal y broses ymgeisio a gwirio cymhwysra yn unigol, byddai'n ofynnol iddynt ddilyn yr un broses a amlinellwyd yn ffigur 2.


7.5 Byddai pob awdurdod yn sefydlu system ymgeisio ar-lein ddwyieithog gyda gwirydd cymhwysra. Byddai'r rhieni'n datgan eu sefyllfa yn erbyn pob un o'r meini prawf er mwyn asesu eu cymhwysra.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

- 7.6 Os byddai'r gwirydd cymhwysra'n dangos eu bod yn gymwys, byddai'n rhaid iddynt gwblhau'r ffurflen gais a chyflwyno tystiolaeth i'r Awdurdod Lleol naill ail ar ffurf copi caled neu'n ddigidol ochr yn ochr â'r cais.
- 7.7 Wedyn, byddai pob Awdurdod Lleol yn gyfrifol am wirio'r dogfennau hyn yn erbyn y cais a'r meini prawf er mwyn dyfarnu a yw'r rhieni'n gymwys.
- 7.8 Pan fydd cymhwysra'r rhiant wedi'i gadarnhau neu ei wrthod, byddai'n cael ei hysbysu drwy e-bost a byddai modd dangos y cadarnhad hwn i'r darparwr gofal plant fel prawf.
- 7.9 Byddai gofyn i bob rhiant ailgadarnhau eu cymhwysra bob tymor, a hynny drwy e-bost fel arfer. O'r rheini sy'n datgan eu bod yn parhau i fod yn gymwys, rhaid ailwirio 20% o'r ceisiadau drwy gyflwyno fersiynau mwy diweddar o'r dystiolaeth. Fel o'r blaen, rhaid gwirio'r rhain yn erbyn y meini prawf cymhwysra a hysbysu rhieni am y canlyniad.
- 7.10 Byddai angen i bob Awdurdod Lleol ddarparu llinell gymorth ddwyieithog a hynny drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd fwy na thebyg. Gan y byddent yn darparu'r gwasanaeth hwn ar ran Llywodraeth Cymru, byddai angen cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac yn benodol â'r hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i Weinidogion Cymru.

Ffigur 2: Map proses ar gyfer opsiwn 1 - Awdurdodau Lleol yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.



7.11 Gwnaeth saith Awdurdod Lleol dreialu'r Cynnig yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu'r Cynnig yn gynnar. Felly, maent eisoes wedi buddsoddi amser i sefydlu systemau a phrosesau. Bydd y buddsoddiad cychwynnol hwn yn lleihau eu costau pontio. Mae'r costau a ysgwyddwyd eisoes gan yr Awdurdodau Lleol hyn ac nad oes modd eu hadennill yn cael eu hystyried yn fanylach isod.

Opsiwn 2 – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn derbyn ceisiadau ac yn cynnal gwiriadau cymhwysra

7.12 Mae opsiwn 2 yn ystyried bod CThEM yn derbyn ceisiadau dwyieithog drwy borthol ar-lein y Gwasanaeth Gofal Plant a ddefnyddir ar gyfer y cynnig gofal plant yn Lloegr (a weinyddir gan yr Adran Addysg) a'r cynllun Gofal Plant Di-dreth. **Dyma'r opsiwn a ffefrir.**


Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

- 7.13 Byddai'r rhieni'n gwneud cais ar gyfer y cynllun drwy borth y llywodraeth drwy broses ymgeisio a reolir gan CThEM. Byddai'r rhieni'n nodi eu manylion a gellir gwirio'r wybodaeth hon i gadarnhau a ydynt yn gymwys.
- 7.14 Wedyn, byddai'r meini prawf cymhwysra'n cael eu gwirio ar sail y sefyllfa ar yr union adeg honno yn erbyn nifer o ffynonellau data eraill y llywodraeth megis data Talu Wrth Ennill (PAYE), cofrestriadau o enedigaethau, data yn ymwneud â budd-daliadau etc i gadarnhau bod y rhieni a'r plentyn yn gymwys.
- 7.15 Os yw'r rhiant yn gymwys, bydd yn cael cod (a fydd yn benodol ar gyfer ymgeiswyr o Gymru) y gellir ei roi i ddarparwyr gofal plant i brofi eu bod yn gymwys. Byddai modd cadarnhau neu wrthod cais syml ar unwaith.
- 7.16 Os byddai'r cais yn gymhleth a bod angen rhagor o wybodaeth, caiff ei nodi fel cais 'melyn'. Golyga hyn fod y ganolfan gymorth yn cysylltu â'r rhiant i gael eglurhad o'r amgylchiadau a phrawf o'i gymhwysra os oes angen.
- 7.17 Wedyn, byddai'r rhiant yn gallu cysylltu â darparwr gofal plant er mwyn cael eu lle ar gyfer y Cynnig gofal plant. Byddai'r darparwyr yn gallu cadarnhau dilysrwydd y cod a chymhwysra'r rhiant cyn darparu'r gofal plant drwy fewngofnodi i borthol Gwasanaeth Gofal Plant Lloegr a weinyddir gan yr Adran Addysg, neu borthol penodedig i Gymru yn unig. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r darparwr ar yr union adeg honno bod y rhiant yn gymwys ac felly telir am y lle.
- 7.18 Gofynnir i bob teulu sy'n cymryd rhan yn y cynnig fewngofnodi i borthol CThEM ac ailgadarnhau eu cymhwysra ar gyfer y Cynnig bob tymor. Byddai gwiriad arall yn cael ei wneud wedyn yn erbyn y setiau data perthnasol er mwyn cadarnhau eu statws. Caiff hyn ei wneud ar gyfer pob rhiant, nid sampl o 20% yn unig fel yn Opsiwn 1.
- 7.19 Er bod CThEM yn cynnig gwasanaeth dwyieithog ar hyn o bryd ar gyfer eu gwasanaethau cenedlaethol eraill, megis Gofal Plant Di-dreth, byddai gweithredu'r broses ymgeisio ar gyfer y Cynnig ar ran Llywodraeth Cymru yn golygu byddai'n angen iddynt ddarparu'r gwasanaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg, ac yn benodol yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i Weinidogion Cymru. Gallai hyn gynyddu lefel y gwasanaethau dwyieithog sydd ar gael.
- 7.20 Byddai angen i CThEM darparu llinell gymorth ddwyieithog ar gyfer cwsmeriaid a chymorth technegol er mwyn helpu'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar-lein a darparu dull o wneud cais i'r rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

7.21 Byddai'r broses apelio yn cael eu gweithredu drwy brosesau presennol CThEM fel y defnyddir ar gyfer y cynnig cyfatebol yn Lloegr a'r Gofal Plant Di-dreth.

Ffigur 3: Map proses ar gyfer opsiwn 2 – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) i dderbyn ceisiadau a chynnal gwiriadau cymhwysra



7.22 Mae CThEM eisoes wedi ystyried beth fyddai ei angen er mwyn symud i'r opsiwn hwn. Golyga hyn bod rhai o'r costau pontio eisoes wedi'u hysgwyddo ac nid oes modd eu hadennill. Caiff y costau suddedig hyn eu hystyried ymhellach isod.

Opsiwn 3 - Llywodraeth Cymru i dderbyn ceisiadau a gwirio cymhwysra

7.23 Mae opsiwn 3 yn golygu y byddai angen i Lywodraeth Cymru greu ffurflen gais ddwyieithog a fyddai'n cael ei defnyddio'n genedlaethol i dderbyn ceisiadau, a byddai cymhwysra rhieni'n cael ei wirio drwy graffu ar y dystiolaeth a ddarperir gan y rhiant.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

- 7.24 Byddai angen i Lywodraeth Cymru gynllunio a gweithredu system ymgeisio ar-lein a fyddai'n cynnwys gwirydd cymhwysra cychwynnol. Byddai'r rhieni'n defnyddio'r gwirydd cymhwysra hwn i hunan-ddatgan eu cymhwysra yn derbyn y rhestr o feini prawf. Os ydynt yn gymwys, byddant yn parhau i gwblhau gweddill y ffurflen gyda'u manylion personol.
- 7.25 Os byddai'r gwirydd cymhwysra'n dangos eu bod yn gymwys, byddai'n rhaid iddynt gyflwyno prawf o'u cymhwysra i Lywodraeth Cymru naill ai ar ffurf copi caled neu'n ddigidol ochr yn ochr â'r cais.
- 7.26 Wedyn byddai tîm penodedig o fewn Llywodraeth Cymru'n gwirio'r dogfennau hyn yn erbyn y meini prawf cymhwysra i gymeradwyo neu wrthod y cais.
- 7.27 Pan fydd cymhwysra'r rhieni wedi'i gadarnhau neu ei wrthod, byddant yn cael eu hysbysu drwy e-bost a byddant yn gallu dangos y cadarnhad i'r darparwr. Byddai'r darparwyr yn gallu gwirio dilysrwydd y cod hwn yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru.
- 7.28 Gofynnir i bob rhiant ailgadarnhau eu cymhwysra bob tymor drwy'r porthol ceisiadau. O'r rheini sy'n datgan eu bod yn parhau i fod yn gymwys, rhaid ailwirio 20% o'r ceisiadau gan ailgyflwyno fersiynau mwy diweddar o'r dystiolaeth. Fel o'r blaen, rhaid gwirio'r rhain yn erbyn y meini prawf cymhwysra a hysbysu'r rhieni am y canlyniad.
- 7.29 Byddai'r gwasanaeth a weithredir gan Lywodraeth Cymru'n gwbl ddwyieithog ac yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Byddai angen darparu llinell gymorth ddwyieithog ar gyfer cwsmeriaid a chymorth technegol er mwyn helpu'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar-lein a darparu dull o wneud cais i'r rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Ffigur 4: Map proses ar gyfer opsiwn 3 - Llywodraeth Cymru i dderbyn ceisiadau a chynnal gwiriadau cymhwysra



Opsiwn 4 - Parti wedi'i contractio yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra; yn cynnwys yr opsiwn o recriwtio un awdurdod i gynnal y gwiriadau hyn

7.30 Mae opsiwn 4 yn archwilio'r posibilrwydd o drydydd parti'n derbyn ceisiadau ar ran Llywodraeth Cymru ac yn gwirio cymhwysra rhieni. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i un Awdurdod Lleol weithredu'r broses ymgeisio a gwirio cymhwysra ar gyfer y Cynnig ar gyfer y wlad i gyd, neu drydydd parti'n cymryd yr awenau fel sy'n digwydd yn achos

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

benthyciadau myfyrwyr lle mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn gweinyddu benthyciadau ar ran y llywodraeth.

- 7.31 Byddai angen i'r trydydd parti gynllunio a gweithredu system ymgeisio ar-lein a fyddai'n cynnwys gwirydd cymhwystra cychwynnol. Byddai'r rhieni'n defnyddio'r gwirydd cymhwystra hwn i hunan-ddatgan eu cymhwystra yn derbyn y rhestr o feini prawf. Os dyfernir eu bod yn gymwys, byddai'r rhieni'n cwblhau gweddill y ffurflen gais gyda'u manylion personol.
- 7.32 Os byddai'r gwirydd cymhwystra'n dangos eu bod yn gymwys, byddai'n rhaid iddynt gyflwyno prawf o'u cymhwystra i'r trydydd parti naill ai ar ffurf copi caled neu'n ddigidol ochr yn ochr â'r cais.
- 7.33 Wedyn byddai'r trydydd parti'n gwirio'r dogfennau hyn yn erbyn y meini prawf cymhwystra er mwyn cymeradwyo neu wrthod y cais.
- 7.34 Pan fydd cymhwystra'r rhieni wedi'i gadarnhau neu ei wrthod, byddant yn cael eu hysbysu drwy e-bost a byddant yn gallu dangos y cadarnhad i'r darparwr.
- 7.35 Gofynnir i bob rhiant drwy e-bost neu neges destun i ailgadarnhau eu cymhwystra bob tymor drwy'r porthol ar gyfer gwneud cais. O'r rheini sy'n datgan eu bod yn parhau i fod yn gymwys, rhaid ailwirio 20% o'r ceisiadau ac ailgyflwyno fersiynau mwy diweddar o'r dystiolaeth. Fel o'r blaen, rhaid gwirio'r rhain yn erbyn y meini prawf cymhwystra a hysbysu rhieni am y canlyniad.
- 7.36 Byddai angen i'r gwasanaeth a weithredir gan y trydydd parti fod yn gwbl ddwyieithog a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'r hysbysiad cydymffurfio a roddir i Weinidogion Cymru. Byddai angen darparu llinell gymorth ddwyieithog ar gyfer cwsmeriaid a chymorth technegol er mwyn helpu'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar-lein a darparu dull o wneud cais ar gyfer y rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.
- 7.37 Byddai angen sefydlu proses apelio i ymdrin â rhieni sy'n herio canlyniad y penderfyniad. Byddai angen i'r broses hon hefyd gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Ffigur 5: Map proses ar gyfer opsiwn 4 – Parti wedi'i contractio yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra



Opsiwn 5 – Awdurdodau Gweithredu’n derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra (cynllun cyflawni presennol / opsiwn gwneud dim)

7.38 Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu ein cynllun cyflawni presennol ar gyfer gweithredu'r cynnig yn gynnar. Y bwriad yw bod 10 Awdurdod Lleol yn Awdurdodau Gweithredu ac yn gweinyddu'r cynnig ar ran pob llywodraeth leol (y 22 Awdurdod Lleol). Pe na bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno, byddai disgwyl i'r opsiwn hwn barhau.

7.39 Mae disgwyl i bob un o'r 10 Awdurdod Gweithredu gynnal y broses ymgeisio a gwirio cymhwysra yn unigol, a byddai'n ofynnol iddynt ddilyn


Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

yr un broses a amlinellir yn ffigur 6. Disgwylir i'r broses ar gyfer Opsiwn 1 ac Opsiwn 5 fod yr un peth, ond o dan opsiwn 5 bydd rhai Awdurdodau Lleol yn gweithredu ar ran Awdurdodau Lleol eraill.

- 7.40 Byddai pob Awdurdod Gweithredu'n sefydlu system ar-lein ddwyieithog ar gyfer cyflwyno ceisiadau sy'n cynnwys gwirydd cymhwystra dangosol. Byddai rhieni'n datgan eu sefyllfa yn erbyn pob un o'r meini prawf cymhwystra er mwyn asesu a ydynt yn gymwys.
- 7.41 Os yw'r gwirydd cymhwystra'n dangos eu bod yn gymwys, byddai'n ofynnol iddynt gwblhau'r ffurflen gais a chyflwyno tystiolaeth o'u cymhwystra i'r Awdurdod Gweithredu perthnasol, naill ai ar ffurf copi caled neu'n ddigidol, ochr yn ochr â'r cais.
- 7.42 Wedyn, byddai pob Awdurdod Gweithredu'n gyfrifol am wirio'r dogfennau â llaw yn erbyn y cais a'r meini prawf cymhwystra er mwyn penderfynu a yw'r rhieni'n gymwys.
- 7.43 Pan fydd cymhwystra wedi'i gadarnhau neu ei wrthod, byddai'r rhieni'n cael eu hysbysu drwy e-bost ac yn dangos y cadarnhad i'r darparwr fel prawf o'u cymhwystra.
- 7.44 Byddai gofyn i bob rhiant ailgadarnhau ei gymhwystra'n dymhorol, a hynny drwy e-bost fel arfer. O'r rheini sy'n cadarnhau eu bod yn parhau i fod yn gymwys, bydd angen cynnal hapwiriad o 20% ohonynt gan ofyn iddynt ailgyflwyno tystiolaeth fwy diweddar. Fel o'r blaen, rhaid gwirio'r dogfennau hyn â llaw yn erbyn y meini prawf cymhwystra a hysbysu rhieni am y canlyniad.
- 7.45 Byddai angen i bob Awdurdod Gweithredu ddarparu llinell gymorth ddwyieithog a hynny drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd fwy na thebyg. Gan y byddent yn darparu'r gwasanaeth hwn ar ran Llywodraeth Cymru, byddai angen iddynt gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac yn benodol â'r hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i Weinidogion Cymru.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Ffigur 6: Map proses ar gyfer opsiwn 5 - Awdurdodau Gweithredu'n derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra (byddai'r un broses yn cael ei dilyn ym mhob Awdurdod Gweithredu)



7.46 Gan fod opsiwn 5 yn adlewyrchu ein cynllun cyflawni presennol ar gyfer gweithredu'n gynnar, mae rhai o'r costau pontio yn gostau suddedig (maent eisoes wedi'u hysgwyddo ac ni ellir eu hadennill). Caiff costau suddedig eu hystyried yn fanylach isod.

8 Costau a Manteision

- 8.1 Ym mhennod 3 amlinellwyd pwrpas y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael. Nod y Bil yw mynd i'r afael â rhwystr sylweddol i rieni rhag gweithio, gan alluogi mwy ohonynt i wneud a gwella'r rhagolygon i blant ar gyfer y dyfodol drwy ddarparu addysg a gofal plant o ansawdd uchel. Gan adeiladu ar y £10m a fuddsoddiwyd yn 2017-18, cynyddodd y gyllideb ddrafft y buddsoddiad hwnnw i £25m yn 2018-19, gan godi i £45m yn 2019-20 i ehangu'r Cynnig yng Nghymru.
- 8.2 Bydd y modd yr eir ati i gyflwyno'r Cynnig yn llawn yn seiliedig ar gasgliadau'r gwerthusiad annibynnol o'r cyfnod gweithredu cynnar. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o nifer y rhieni cymwys sy'n gweithio sydd wedi manteisio ar y cynnig, a bydd yn ystyried effaith y ddeddfwriaeth¹².
- 8.3 Mae'n bwysig nodi na fydd cost darparu gofal plant o dan y Cynnig yn newid o dan unrhyw un o'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer gwirio cymhwysra ymgeiswyr a hysbysu ymgeiswyr am y canlyniad.

Methodoleg Baich rhieni

- 8.4 I bob opsiwn, bydd yna gost i rieni a gwarcheidwaid sy'n gysylltiedig â'r amser y bydd yn ei gymryd i wirio cymhwysra a chyflwyno cais â dogfennau ategol (lle bo'n ofynnol). Er na fydd yna gost ariannol o reidrwydd, caiff yr amser a gymerir ei nodi mewn termau ariannol at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi¹³ wedi dyfeisio methodoleg i gyfrifo cost yr amser a dreulir gan gwsmeriaid ar y broses ymgeisio. Mae'r dull yn ystyried gwerth ariannol yr amser a dreuliodd cwsmeriaid yn ymwneud â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae modd cymhwyso'r fethodoleg hon yn uniongyrchol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan fod yr opsiwn a ffefrir yn nodi y byddai rhieni'n ymwneud â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn y ffordd hon.
- 8.5 Mae'r fethodoleg a amlinellir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn defnyddio data am enillion cyfartalog fesul awr a gymerwyd o Arolwg Blynyddol 2008 o Oriau ac Enillion (ASHE). Dewiswyd data'r arolwg hwn am ei fod yn arolwg o gyfran fawr o'r boblogaeth (tua 150,000). Un o wendidau'r arolwg hwn yw nad yw'n cynnwys pobl hunangyflogedig - amcangyfrifir bod cynnwys pobl hunangyflogedig yn lleihau gwerth yr amser a amcangyfrifir yn y ffordd hon ryw ychydig.

¹² Nid yw cost y gwerthusiad wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon. Y rheswm am hyn yw mai darn technegol o'r ddeddfwriaeth yw hwn sydd ond yn ymwneud â gwirio cymhwysra, a chaiff ei effeithiolrwydd ei asesu fel rhan o'r gwerthusiad llawn o'r Cynnig.

¹³ Hill, A and Noti, J, HMRC (2009) Costing Customer Time Research Time https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/330346/cost-of-time.pdf

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

- 8.6 Defnyddiodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi y cyflog gros cymedr fesul awr a welir yn arolwg 2008. Y ffigur cyfatebol dros dro ar gyfer y DU yn 2017, ar gyfer cyflog gros cymedr fesul awr, ac eithrio goramser, yw £16.25.
- 8.7 Mae dull Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn mynd ymlaen i gyfrifo cyflogau procsi unigolion nad ydynt yn gweithio. Gan mai dim ond i rieni sy'n gweithio y mae'r Cynnig ar gael, mae'n briodol defnyddio cyflog fesul awr yr Arolwg heb gyfrifo manylion unigolion nad ydynt yn gweithio ar wahân.
- 8.8 Drwy roi gwerth ar amser cwsmeriaid gan ddefnyddio data cyflogau, mewn ffordd rydym yn rhoi gwerth ar y baich sydd ar gwsmeriaid sy'n ymwneud â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel gwaith 'di-dâl'. Gan ddefnyddio cyflogau gros fel sail yr amcangyfrifon, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi eu haddasu i gyfrif am y costau cyflogaeth eraill, ee costau ystâd, pensiynau ac ati. Mae papur methodoleg Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn nodi bod yr UK Standard Cost Model (SCM) Manual a luniwyd gan Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio Swyddfa'r Cabinet yn 2005 yn amcangyfrif bod costau ychwanegol yn dod i ryw 30% o gost cyflogau.

Cyflog Gros Cymedr Fesul Awr (ac eithrio goramser) - Arolwg ASHE 2017	£16.25
Ymgodiad o 30% i greu cyfanswm cyflog fesul awr	£21.13

Modelu costau

- 8.9 Contractiwyd ymgynghoriaeth annibynnol¹⁴ i ddatblygu costau bras.
- 8.10 Aeth yr ymgynghorwyr ati ar ein rhan i ddatblygu cynllun lefel uchel canolog ar sail yr elfennau a ddefnyddir yn aml mewn systemau tebyg..

Elfennau'r system ym mhob opsiwn

- 8.11 Mae rheoli achosion yn hanfodol mewn pob system lwyddiannus. Mae'r systemau hyn yn gweithredu fel 'ymennydd' y gwasanaeth, gan reoli a chydgysylltu ceisiadau rhieni, o'r cais cychwynnol i gymhwystra, ac yn y pen draw i'r gallu i hwyluso ceisiadau.
- 8.12 Mae pob system yn defnyddio'r we i ryngweithio â'r dinesydd, ond mae systemau mwy arbenigol yn defnyddio rhaglenni ar gyfer dyfeisiau symudol hefyd.

¹⁴ Penodwyd Gartner Consulting.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

8.13 Mae'r gallu i reoli data drwy system feistr ddibynadwy a rheoli cynnwys yn sylfaen gadarn i sefydlu cyfrifon ar gyfer rhieni.

8.14 Mae gwybodaeth reoli syml ond effeithiol o fewn rhwydwaith diogelwch cryf yn cwblhau'r system

Rhagdybiaethau a dull gweithredu

8.15 Defnyddiodd yr ymgynghorwyr y model hwn i lunio a datblygu'r rhagdybiaethau a'r costau lefel uchel ar gyfer pob opsiwn. Maent wedi ystyried elfennau a chostau gweithredu'r opsiynau (datblygu a sefydlu'r system) a'r costau rheolaidd, gan gynnwys costau personél lle bo angen ymyrraeth unigolion.

8.16 Gan nad yw'r gofynion wedi'u diffinio'n glir ar hyn o bryd, bu'n rhaid gwneud rhagdybiaethau o ran y prosesau, gofynion eraill y system a'r gost.

8.17 Gwnaed y rhagdybiaethau ynghylch y defnydd o'r system ar sail cyfweiliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y Cynnig a staff yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar. Cafwyd gwybodaeth lefel uchel gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am y ddarpariaeth gwasanaeth bosibl a'r costau cysylltiedig, er mai damcaniaethol yw'r rhain ar hyn o bryd.

8.18 Cyflwynwyd pob rhagdybiaeth ym model costau pob opsiwn. Defnyddiwyd cyfraddau a feincnodwyd ar gyfer y diwydiant ar gyfer costau staff, fel cyfraddau dydd gweithwyr proffesiynol ac elfennau systemau safonedig. Lle nodwyd costau ar sail ffynhonnell arall, mae hyn wedi'i gynnwys yn y model costau.

8.19 O ystyried yr ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch y gofynion a'r amserlen gyflawni, amcangyfrifwyd costau ychydig yn uwch.

8.20 Mae'r model costau yn cynnwys costau gweithredu'r broses bontio a'r costau rheolaidd dros gyfnod pum mlynedd y cynnig.

8.21 Caiff yr elfennau a ystyrir ac y nodir eu costau ym mhob opsiwn eu hamlinellu a'u diffinio yn nhabl 1.0 yn atodiad 4.

8.22 Mae pob un o'r pum opsiwn yn rhoi sylw i wahanol agweddau ar yr elfennau hyn ac mewn gwahanol ffordd.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Y model costau a gyflwynir yn yr opsiynau

8.23 Amlinellir isod fodel costau pob opsiwn, gan gynnwys y rhagdybiaethau a'r elfennau, ac mae tablau costau manwl llawn pob opsiwn yn atodiadau'r adroddiad.

Opsiwn 1 - Awdurdodau Lleol yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

8.24 Ni fyddai opsiwn 1 yn newid y ddeddfwriaeth bresennol. Os bydd y Cynnig yn parhau i gael ei gyflwyno'n naturiol, bydd pob Awdurdod Lleol yn rheoli ac yn prosesu ceisiadau yn annibynnol. Defnyddiwyd y model hwn i weithredu'r Cynnig ym mlwyddyn gyntaf y cynlluniau peilot. Ychwanegwyd Opsiwn 5 i'r fersiwn ddiwygiedig hon er mwyn adlewyrchu'r model cyflawni ar gyfer yr ail flwyddyn o weithredu'n gynnar (gweler isod am ragor o fanylion), a chaiff bellach ei ystyried fel yr opsiwn sylfaenol (yr opsiwn gwneud dim).

8.25 Mae crynodeb isod o'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Cyflwynir manylion gofynion, rhagdybiaethau a chostau cysylltiedig yr opsiwn hwn yn nhabl 1.1 yn [Atodiad 5](#).

8.26 Dyma dabl cryno o gostau'r opsiwn hwn:

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Opsiwn 1 - Awdurdodau lleol yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra: Crynodeb o'r Costau Gweinyddol

Opsiwn	Cost Bontio (2019/20)	2020/21	2021/2022	2022/23	2023/24	2024/25	TOTAL
Costau Refeniw i Lywodraeth Cymru	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Costau Cyfalaf i Lywodraeth Cymru	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Costau Refeniw i Awdurdodau Lleol	£847,000	£3,107,000	£3,107,000	£3,108,000	£3,109,000	£3,110,000	£16,388,000
Costau cyfalaf i Awdurdodau Lleol	£11,431,000	£0	£0	£0	£0	£0	£11,431,000
CYFANSWM	£12,278,000	£3,107,000	£3,107,000	£3,108,000	£3,109,000	£3,110,000	£27,819,000

8.27 Cost bontio'r opsiwn hwn yw'r uchaf o'r holl opsiynau. Bydd mwy nag un system i dderbyn ceisiadau a chynnal y gwiriadau cymhwystra, gan y bydd pob Awdurdod Lleol yn darparu'r gwasanaeth.

8.28 Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig hwn, mae'r costau a nodwyd yn Opsiwn 1 ar gyfer rheoli achosion wedi'u newid. Mae'r amser a gymerir ar gyfer hyn yn debygol o amrywio'n sylweddol yn dibynnu p'un a yw awdurdod yn prynu system neu'n datblygu eu system eu hunain. Mae'r costau diwygiedig yn ystyried hyn, fel yr amlinellir yn Atodiad 5.

8.29 Mae ychwanegu premiwm risg yn arfer da¹⁵. Wrth fynd ati i ddechrau gwneud arfarniad, gellir ychwanegu ymgodiad cyffredinol at werth presennol net prosiect, er mwyn gwrthbwysu optimistiaeth gormodol. Mae'r ymgodiad a ychwanegwyd yma yn cynyddu cost y broses bontio'n sylweddol. Mae'n cynnwys ymgodiad yng nghostau pontio cyfartalog endidau unigol, gan fod gwaith ymchwil yr ymgynghoriaeth annibynnol yn dangos bod costau ychwanegol yn dod i ran endidau unigol yn ystod

¹⁵ t30: Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220541/green_book_complete.pdf

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

eu blwyddyn gyntaf, yn dibynnu ar gymhlethdod y dechnoleg. Gan nad un endid sydd dan sylw yn yr opsiwn hwn, ond sawl Awdurdod Lleol yn darparu'r gwasanaeth, nodwyd ffigur uwch.

8.30 Mae yna dystiolaeth bod arfarnwyr prosiectau yn tueddu i fod yn or-optimistaidd wrth ddatblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau TG (yn ogystal â mathau eraill o brosiectau cyfalaf). Y canlyniad yw amcangyfrif annigonol o'r costau a'r amserlenni, ac amcangyfrif rhy uchel o'r manteision. Mae canllawiau Trysorlys EM yn nodi y dylid addasu amcangyfrifon o gostau, manteision a hyd prosiect, ar sail data am brosiectau o'r gorffennol neu brosiectau tebyg, ac y dylid eu haddasu hefyd yn ôl nodweddion unigryw'r prosiect dan sylw¹⁶. Nodir bod angen cywiro'r gor-optimistiaeth ar gyfer yr opsiwn hwn i'r lefel uchaf, yn unol â chyfarwyddyd Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Y rheswm am hyn yw nad oes gan Awdurdodau Lleol brofiad o'r gwaith hwn a bod nifer fawr o ffactorau nad ydynt yn hysbys mewn perthynas â'r opsiwn hwn, sy'n cynyddu'r risg y bydd y cost gychwynol y broses bontio yn codi.

8.31 Mae'r costau rhedeg blynyddol yn sylweddol uwch ar gyfer yr opsiwn hwn nag ar gyfer unrhyw un arall. Mae'r costau rhedeg blynyddol yn cynyddu ychydig yn sgil costau integreiddio unrhyw systemau a fydd yn cynyddu'n gyson bob blwyddyn. Mae gweddill y costau rheolaidd yn parhau'r un fath bob blwyddyn, hy gwirio'r ceisiadau, yr apelau, y ddesg gymorth, gan fod y meini prawf cymhwysra yn parhau'r un fath, ac felly ni fyddai angen gwneud unrhyw newidiadau.

Baich yr ymgeisydd

8.32 Mae baich amser ar rieni a gwarcheidwaid sy'n gwneud cais i wirio eu cymhwysra a chyflwyno eu ceisiadau a'r dogfennau ategol. Caiff y baich amser hwn ei nodi mewn termau ariannol at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ¹⁷wedi dyfeisio methodoleg i gyfrifo gwerth yr amser a dreulir gan gwsmeriaid yn ymwneud â nhw. Mae hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r broses a nodir ym mhob un o'r opsiynau, gan fod yr opsiwn a ffefrir yn nodi y byddai rhieni yn ymwneud â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn y ffordd hon, ac mae'r ffordd y caiff gwerth amser ei nodi yn berthnasol i'r pedwar opsiwn arall hefyd. O ystyried y byddai prosesau tebyg yn cael eu dilyn ym mhob un o'r opsiynau a ystyrir yn y papur hwn, mae gwerth amser fesul uned yr un fath a chaiff ei gyfrifo gan ddefnyddio'r un fethodoleg (mae hyn wedi'i grynhoi yn 8.1.1). Fodd bynnag, bydd yr amcangyfrif o'r amser a dreulir gan rieni wrth wneud cais yn amrywio, ac felly y gost i rieni hefyd.

¹⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/green-book-supplementary-guidance-optimism-bias>

¹⁷ Hill, A and Noti, J, HMRC (2009) Costing Customer Time Research Time https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/330346/cost-of-time.pdf

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

8.33 Amcangyfrifir mai gwerth amser unigolion sy'n gweithio ac sy'n ymwneud â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw £21.13/yr awr.

8.34 Mae'r gwaith treialu ar system gofal plant di-dreth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn amcangyfrif bod un cais safonol yn cymryd 20 munud i'r rhiant, cyn belled â bod ganddo broffil ar borthol y llywodraeth er mwyn cael mynediad i borthol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

8.35 Mae opsiwn 1 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth ddogfennol yn ogystal â'r manylion safonol a gesglir drwy gais Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Amcangyfrifir bod y broses yn cymryd awr o dan yr opsiwn hwn.

8.36 Cost baich yr ymgeisydd o dan yr opsiwn hwn, felly, fyddai:

$$\begin{aligned} \text{Cost of applicant burden} \\ &= \text{value of one hour of time for working individuals} \\ &= £21.13 \end{aligned}$$

8.37 Rhagwelir 40,000 o ymgeiswyr y flwyddyn, sy'n creu cyfanswm cost blynyddol o:

$$\text{Total annual cost of applicant burden} = £21.13 \times 40,000 = £845,200$$

Cost ac arbedion cyffredinol

8.38 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu mwy na llai o gostau, gan mai hwn yw'r opsiwn 'gwneud dim'. Defnyddir y gost hon fel cost meincnod y gellir gwerthuso costau'r opsiynau eraill yn ei herbyn.

8.39 Crynhoir y costau cyffredinol a'r arbedion posibl yn nhabl 1.2.

Cyfanswm cost gweithredu opsiwn 1 dros 5 mlynedd	£27,819,000
Gwerth cost amser i ymgeiswyr dros 5 mlynedd	£845,200 x 5 mlynedd = £4,226,000
Cyfanswm cost darparu opsiwn 1 dros 5 mlynedd	£32,044,000

8.40 Gwerth presennol costau'r opsiwn hwn yw £29,109,000.

8.41 Mae rhai Awdurdodau Lleol eisoes yn darparu'r Cynnig, fel yr eglurir yn Opsiwn 5 isod. Felly, mae'n debygol y bydd rhai costau eisoes wedi'u hysgwyddo ac ni ellir eu hadennill (e.e. cost amser staff i ddatblygu systemau a phrosesau er mwyn i rieni allu gwneud cais a gwirio eu cymhwysra). Fodd bynnag, dengys dadansoddiad sensitifrwydd hyd yn oed pe bawn yn ystyried bod yr holl gostau pontio wedi'u hysgwyddo ac

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

nad oes modd eu hadennill (er nad yw hyn yn sicr yn wir), mae'r opsiwn hwn yn parhau i fod yn fwy drud na'r opsiwn a ffefrir (£10 miliwn).

Risgiau a manteision

8.42 Mae yna rai manteision a risgiau allweddol ychwanegol nad oes modd eu mesur a allai gael eu gwireddu drwy'r opsiwn hwn:

Manteision	
1	Mae gan yr Awdurdodau Lleol berthnasau gwaith cryf â darparwyr, cymunedau a theuluoedd, a allai eu helpu i dargedu'r cynnig yn briodol ac ategu eu cyfrifoldebau ehangach (e.e. digonolrwydd gofal plant a derbyniadau i ysgolion meithrin/ysgolion).
2	Mae rhai awdurdodau eisoes yn darparu'r cynnig yn llwyddiannus mewn ardaloedd sy'n gweithredu'n gynnar.

Risgiau	
1	Nid oes gan yr Awdurdodau Lleol y porth cyfreithiol i wirio cymhwysra yn erbyn data gweinyddol y Llywodraeth, ac felly mae'r system yn fwy agored i dwyll.
2	Heb y gallu i wirio cofnodion gweinyddol y Llywodraeth, mae'r system a'r prosesau sy'n cael eu rhoi yn eu lle yn debygol o roi'r baich ar y rhieni i ddarparu tystiolaeth o'u cymhwysra, ac efallai na fydd rhai'n gallu manteisio'n llawn ar y Cynnig os ydynt yn cael hyn yn anodd neu'n llafurus (e.e. cael gafael ar slipiau talu i ddangos eu cyflogaeth a'u tâl).
3	Bydd y dystiolaeth y mae rhieni'n debygol o orfod ei darparu yn bersonol ac yn sensitive; mae hyn yn creu risgiau posibl ran diogelwch data.
4	Gallai'r 10 Awdurdod Lleol greu systemau gwahanol, a fyddai'n aneffeithlon ac efallai'n creu dryswch yn y broses ymgeisio (e.e. lle mae rhieni'n gweithio mewn ardal wahanol i'r ardal lle maent yn byw).

Opsiwn 2 - Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

8.43 Mae opsiwn 2 yn golygu datblygu system ymgeisio a gwirio cymhwysra yng Nghymru o fewn plattform gofal plant di-dreth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Byddai Llywodraeth Cymru yn talu am gostau datblygu a darparu'r gwasanaeth hwn.

8.44 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o gostau gweinyddol yr opsiwn hwn. Amlinellir gofynion, rhagdybiaethau a chostau cysylltiedig yr opsiwn hwn yn llawn yn nhabl 1.3 yn [Atodiad 6](#).

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Opsiwn 2 - Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra: Crynodeb o'r costau gweinyddol

Opsiwn	Cost Bontio (2019/20)	2020/21	2021/2022	2022/23	2023/24	2024/25	TOTAL
Costau Refeniw i Lywodraeth Cymru	£411,000	£1,089,000	£1,096,000	£1,105,000	£1,115,000	£1,129,000	£5,945,000
Costau Cyfalaf i Lywodraeth Cymru	£3,174,000	£0	£0	£0	£0	£0	£3,174,000
Costau Refeniw i Awdurdodau Lleol	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Costau cyfalaf i Awdurdodau Lleol	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
CYFANSWM	£3,585,000	£1,089,000	£1,096,000	£1,105,000	£1,115,000	£1,129,000	£9,118,000

8.45 Mae'r opsiwn hwn yn golygu addasu system sydd eisoes yn bodoli, sef system Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac felly mae'r costau cyfalaf y byddai'n rhaid eu talu ar unwaith yn sylweddol is nag opsiwn 1. Hefyd, gan fod yna lai o ansicrwydd ynghlwm wrth yr opsiwn hwn, mae'r ymgodiad a ychwanegwyd at y costau pontio lawer yn is. Costau pontio'r opsiwn hwn yw'r isaf.

8.46 Mae CThEM wedi gwneud rhywfaint o waith pontio cychwynnol i sicrhau eu bod yn gallu gwirio cymhwysra a phrosesu ceisiadau'n effeithlon ac yn effeithiol ar gyfer Cymru. Mae hyn yn golygu bod rhai o'r costau pontio wedi'u hysgwyddo ac ni fyddai modd eu hadennill. Opsiwn 2 yw'r opsiwn rhataf ar y cyfan, ac ar gyfer pontio. Pe bai costau suddedig yn cael eu tynnu o'r asesiad hwn, byddai'r opsiwn hwn yn rhatach byth.

8.47 Yr opsiwn hwn sydd â'r costau rheolaidd isaf hefyd ar gyfer y blynyddoedd wedyn, gan y byddai system bresennol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, unwaith y byddai wedi'i haddasu, yn cael ei defnyddio i gynnal gwiriadau digidol. Mae'r rheswm dros y cynnydd ar hyd y blynyddoedd yr un fath ag ar gyfer pob opsiwn, sef bod y gost integreiddio yn cynyddu ychydig bob blwyddyn.

Baich yr ymgeisydd

8.48 Mae'r gwaith treialu ar system gofal plant di-dreth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn amcangyfrif bod un cais safonol yn cymryd 20 munud i'r

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

rhiant, cyn belled â bod ganddo broffil ar borthol y llywodraeth er mwyn cael mynediad i borthol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

8.49 Cost baich yr ymgeisydd o dan yr opsiwn hwn, felly, fyddai:

$$\begin{aligned} \text{Cost of applicant burden} \\ &= \frac{\text{value of one hour of time for working individuals}}{3} = \frac{£21.13}{3} \\ &= £7.04 \end{aligned}$$

8.50 Ar sail yr amcangyfrif o 40,000 o ymgeiswyr y flwyddyn, felly, mae hyn yn rhoi cyfanswm cost blynyddol o:

$$\text{Total annual cost of applicant burden} = £7.04 \times 40,000 = £281,600$$

8.51 Mae hyn yn arbediad ariannol o £563,600 y flwyddyn o gymharu ag opsiwn 1.

Cost ac arbedion cyffredinol

8.52 Mae opsiwn 2 yn cynnig arbediad yn y costau gweinyddol o gymharu ag opsiwn 1, a chostau i Lywodraeth Cymru fyddent yn hytrach nag i Awdurdodau Lleol.

8.53 Crynhoir y costau cyffredinol a'r arbedion posibl yn nhabl 1.4.

Table 1.4 – Five year cost summary for option two

	Cost 5 mlynedd ar gyfer opsiwn 2	Arbedion cost o gymharu ag opsiwn 1
Cyfanswm y gost weinyddol	£9,118,000	£11,513,000
Baich amser mewn termau ariannol i ymgeiswyr	£1,408,000	£2,818,000
Cyfanswm y gost	£10,526,000	£14,331,000

Gwerth presennol y costau yn yr opsiwn hwn yw £9,516,000.

Risgiau a manteision

8.54 Mae yna rai manteision a risgiau allweddol ychwanegol nad oes modd eu mesur a allai gael eu gwireddu drwy'r opsiwn hwn:

Manteision	
1	Gan mai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sydd â mynediad i bob cyfres ddata sy'n ofynnol er mwyn cadarnhau cymhwystra rhieni neu mai nhw sy'n gallu

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

	cael mynediad yn hawdd i'r data, cadarnhawyd protocolau a chytundebau eisoes o ran mynediad at ddata ac maent yn gweithredu'n effeithiol. Mae hyn yn lleihau'r baich gweinyddol a'r risgiau o ran diogelwch data yn sylweddol.
2	Gwneir i ffwrdd â'r problemau diogelwch data wrth ddelio â'r dystiolaeth ddogfennol gan rieni a gyflwynir i'r sefydliad sy'n cynnal y gwiriadau ac wrth storio'r dystiolaeth gan na chaiff unrhyw dystiolaeth ddogfennol ei chyflwyno ar gyfer achos safonol.
3	Lleiheir baich y rhieni yn sylweddol yn sgil y gost is (gweler y cyfrifiad uchod ar y baich i'r ymgeisydd).
4	Mae gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi gysylltiadau eisoes â systemau talu Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol drwy ofal plant di-dreth a system Gwirio Cymhwystra yr Adran Addysg sy'n ei gwneud yn bosibl cadarnhau cymhwystra rhiant. Mae'r cysylltiadau hyn sydd eisoes yn bodoli i systemau sy'n gallu hwyluso taliadau yn rhoi opsiynau inni wrth ystyried opsiynau talu posibl ar gyfer darparwyr gofal plant. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig oherwydd y cyfyngiadau ar adnoddau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
5	Lleiheir risg twyll yn sylweddol gan fod modd gwirio cymhwystra unigolyn ar sail ei sefyllfa ar yr union adeg honno, gan ddefnyddio data nad oes modd eu hystumio na'u newid gan rieni sy'n ceisio gwneud cais drwy dwyll. Gellir ailgadarnhau cymhwystra pawb yn rheolaidd, nid dim ond sampl o 20% fel yn opsiwn 1.

Risgiau

1	Hyd yma, arweiniwyd y defnydd o'r system gofal plant di-dreth gan yr Adran Addysg, ac felly mae yna risg y câi honno ei gweld fel y prif gwsmer ac felly y byddai'n gweithredu fel hyrwyddwr unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.
2	Gan mai'r Adran Addysg arweiniodd y defnydd o'r system gofal plant di-dreth, mae'r meini prawf cymhwystra sylfaenol yn seiliedig ar bolisi Lloegr - byddai unrhyw wyro o'r meini prawf hynny yn golygu cost ac efallai oedi.
3	Roedd yna broblemau perfformiad o ran y system gofal plant di-dreth pan gafodd ei chyflwyno'n llawn - nes iddynt gael eu cywiro; mae defnyddio system a gafodd broblemau perfformiad yn risg.

Opsiwn 3 - Llywodraeth Cymru yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra

8.55 Byddai opsiwn 3 yn creu system ymgeisio a gwirio cymhwystra benodol i Gymru. Byddai'n cael ei datblygu a'i gweithredu gan Lywodraeth Cymru.

8.56 Mae'r tabl yn rhoi crynodeb o gostau gweinyddol yr opsiwn hwn. Caiff y gofynion, y rhagdybiaethau a'r costau cysylltiedig ar gyfer yr opsiwn hwn eu nodi'n llawn yn nhabl 1.5 yn [Atodiad 7](#).

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Opsiwn 3 - Llywodraeth Cymru yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra: Crynodeb o'r costau gweinyddol

Opsiwn	Cost Bontio (2019/20)	2020/21	2021/2022	2022/23	2023/24	2024/25	CYFANSWM
Costau Refeniw i Lywodraeth Cymru	£433,000	£1,913,000	£1,933,000	£1,958,000	£1,989,000	£2,028,000	£10,254,000
Costau Cyfalaf i Lywodraeth Cymru	£5,299,000	£0	£0	£0	£0	£0	£5,299,000
Costau Refeniw i Awdurdodau Lleol	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Costau cyfalaf i Awdurdodau Lleol	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
CYFANSWM	£5,732,000	£1,913,000	£1,933,000	£1,958,000	£1,989,000	£2,028,000	£15,551,000

8.57 Y gost cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yw'r isaf o bob opsiwn, cyn ychwanegu ymgodiad. Rhagdybir y gellid addasu meddalwedd bresennol Llywodraeth Cymru at ddibenion system ymgeisio a gwirio cymhwysra.

8.58 Mae'r ymgodiad a ychwanegir i'r costau pontio hyn yn uchel, unwaith eto oherwydd lefel uchel yr ansicrwydd a nifer y rhagdybiaethau o ran yr adnoddau a'r systemau technoleg a fyddai ar gael. Yn unol â'r Llyfr Gwyrdd, ac fel yn achos opsiwn 1, oherwydd yr elfennau hyn nad ydynt yn hysbys, bu'n rhaid cywiro'r gor-optimistiaeth ar gyfer yr opsiwn hwn i'r lefel uchaf.

8.59 Mae'r costau rheolaidd yn is nag ar gyfer opsiwn 1, gan na fyddai angen yr un lefel o wiriadau â llaw. Fodd bynnag, mae'r costau rheolaidd yn uwch nag ar gyfer opsiwn 2, gan y byddai angen mwy o wiriadau â llaw.

Baich yr ymgeisydd

8.60 Mae'r gwaith treialu ar system gofal plant di-dreth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn amcangyfrif bod un cais safonol yn cymryd 20 munud i'r rhiant, cyn belled â bod ganddo broffil ar borthol y llywodraeth er mwyn cael mynediad i borthol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

8.61 Mae opsiwn 3 yn ei gwneud yn ofynnol i rieni gyflwyno tystiolaeth ddogfennol yn ogystal â'r manylion safonol a gesglir drwy gais Cyllid a

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Thollau Ei Mawrhydi. Amcangyfrifir ei bod yn cymryd 40 munud i gyflwyno cais safonol i Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir bod hyn yn hirach nag opsiwn Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi gan y byddai angen i rieni gyflwyno tystiolaeth ddogfennol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r system yn fwy trylwyr ac effeithlon nag opsiwn yr Awdurdodau Lleol oherwydd cynllun cyson y system a'r arbedion maint.

8.62 Cost baich yr ymgeisydd o dan yr opsiwn hwn, felly, fyddai:

$$\begin{aligned} \text{Cost of applicant burden} &= \frac{\text{value of one hour of time for working individuals}}{3} \times 2 \\ &= \frac{\pounds 21.13}{3} \times 2 = \pounds 14.09 \end{aligned}$$

8.63 Ar sail yr amcangyfrif o 40,000 o ymgeiswyr y flwyddyn, mae hyn yn rhoi cyfanswm cost blyneddol o:

$$\text{Total annual cost of applicant burden} = \pounds 14.09 \times 40,000 = \pounds 563,600$$

8.64 Mae hyn yn arbediad ariannol o £281,600 y flwyddyn i ymgeiswyr (o gymharu ag opsiwn 1).

Cost ac arbedion cyffredinol

8.65 Mae opsiwn 3 yn cynnig arbediad yn y costau gweinyddol o gymharu ag opsiwn 1, a chostau i Lywodraeth Cymru fyddent yn hytrach nag i Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, mae'r arbedion yn is nag yn opsiwn 2.

8.66 Crynhoir y costau cyffredinol a'r arbedion posibl yn nhabl 1.6.

Tabl 1.6 - Crynodeb o gostau pum mlynedd ar gyfer opsiwn 3

	Cost 5 mlynedd ar gyfer opsiwn 3	Arbedion cost o gymharu ag opsiwn 1
Cyfanswm y gost weinyddol	£15,551,000	£5,080,000
Baich amser mewn termau ariannol i ymgeiswyr	£2,818,000	£1,408,000
Cyfanswm y gost	£18,369,000	£6,488,000

8.67 Gwerth presennol costau'r opsiwn hwn yw £16,555,000.

Risgiau a manteision

8.68 Mae yna rai manteision a risgiau anariannol allweddol ychwanegol a allai gael eu gwireddu drwy'r opsiwn hwn:

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Benefits	
1	Byddai system a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yn darparu un porthol i bob rhiant cymwys wneud cais am y gofal plant a ariennir gan y llywodraeth, yn hytrach na chael 10 o systemau lleol a ddatblygir ac a weinyddir yn unigol gan yr Awdurdodau Lleol.
2	Byddai un system apelau i rieni sy'n anhapus â phenderfyniad am eu cymhwysra, ac un dull o adolygu'r penderfyniad ac un awdurdod perthnasol, fel y Tribiwnlys Haen Gyntaf, i ystyried apelau ymhellach.
3	Byddai gan Lywodraeth Cymru mwy o reolaeth ar weinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra.

Risgiau	
1	Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am ddelio â swmp mawr o wybodaeth bersonol sensitif gan rieni ac am ei storio. Byddai angen sefydlu mesurau llym dros ben ar gyfer diogelu data, ond mae hyn yn cynyddu'r risg o golli neu beryglu data.
2	Fel yn achos opsiwn 2, system a berchnogir ac a gynhelir gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n gweinyddu'r broses gwirio cymhwysra ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig. Ni fyddai'n gweinyddu'r 10 awr o addysg y mae gan blant 3-4 oed hawl iddynt. Byddai dwy elfen i'r broses ymgeisio i rieni, felly, lle byddai'n rhaid iddynt wneud cais i'w Hawdurdod Lleol am le mewn addysg, ac yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru am le gofal plant. Byddai hyn, felly, yn cynyddu'r baich ar rieni ac yn cymhlethu'r broses ymgeisio.
3	Byddai opsiwn wedi'i deilwra gan Lywodraeth Cymru yn galw am lawer o adnoddau - er mwyn creu system ddigidol lle byddai'n debygol o fod angen chwilio am arbenigwyr, a hefyd yn weinyddol gan y byddai angen tîm gweinyddol yn ogystal â desg gymorth a thechnegol.

Opsiwn 4 - Parti wedi'i gontractio yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

8.69 Byddai opsiwn 4 yn golygu bod system ymgeisio a gwirio cymhwysra benodol i Gymru yn cael ei datblygu a'i gweithredu gan ddarparwr trydydd parti.

8.70 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o gostau gweinyddol yr opsiwn hwn. Amlinellir gofynion, rhagdybiaethau a chostau cysylltiedig yr opsiwn hwn yn llawn yn [nhabl 1.7](#) yn Atodiad 8.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Opsiwn 4 - Parti wedi'i gontractio yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra: Crynodeb o'r costau

Opsiwn	Cost Bontio (2019/20)	2020/21	2021/2022	2022/23	2023/24	2024/25	CYFANSWM
Costau Refeniw i Lywodraeth Cymru	£266,000	£2,817,000	£2,837,000	£2,862,000	£2,893,000	£2,932,000	£14,607,000
Costau Cyfalaf i Lywodraeth Cymru	£3,927,000	£0	£0	£0	£0	£0	£3,927,000
Costau Refeniw i Awdurdodau Lleol	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Costau cyfalaf i Awdurdodau Lleol	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
CYFANSWM	£4,193,000	£2,817,000	£2,837,000	£2,862,000	£2,893,000	£2,932,000	£18,534,000

8.71 Mae'r costau pontio o dan yr opsiwn hwn yn seiliedig ar barti wedi'i gontractio yn darparu'r systemau gofynnol i wirio cymhwysra yng Nghyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

8.72 Amcangyfrifir cost uwch nag ar gyfer opsiwn 2 am sawl rheswm, gan gynnwys costau caffael, a materion fel diffyg mynediad y parti wedi'i gontractio i randdeiliaid yn ystod y broses sefydlu a chyflunio.

8.73 Mae'r ymgodiad a ychwanegwyd i'r costau pontio yn is ar gyfer yr opsiwn hwn nag ar gyfer opsiwn 1 gan y gallwn gymryd y byddai gan gontractiwr ryw brofiad o ddatblygu systemau o'r fath. Yn ogystal, mae'r Llyfr Gwyrdd yn argymhell y dylid, wrth asesu i ba raddau y mae yna or-optimistiaeth, nodi lefel is ar gyfer prosiectau TG a gontrectir yn allanol nag ar gyfer y rheini a gyflawnir yn fewnol.

8.74 Yn yr opsiwn hwn y gwelir y costau rhedeg blynyddol uchaf ond un oherwydd yr angen i unigolion wirio tystiolaeth ddogfennol. Mae'r costau rhedeg blynyddol yn cynyddu'n gyson bob blwyddyn oherwydd y costau integreiddio.

Baich yr ymgeisydd

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

8.75 Mae'r gwaith treialu ar system gofal plant di-dreth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn amcangyfrif bod un cais safonol yn cymryd 20 munud i'r rhiant, cyn belled â bod ganddo broffil ar borthol y llywodraeth er mwyn cael mynediad i borthol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

8.76 Mae opsiwn 4 yn ei gwneud yn ofynnol i rieni gyflwyno tystiolaeth ddogfennol yn ogystal â'r manylion safonol a gesglir drwy gais Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Amcangyfrifir ei bod yn cymryd 40 munud i gyflwyno cais safonol i barti a gontractiwyd. Amcangyfrifir bod hyn yn sylweddol hirach nag opsiwn Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi gan y byddai angen i rieni gyflwyno tystiolaeth ddogfennol i'r contractiwr. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r system yn fwy trylwyr ac effeithlon nag opsiwn yr Awdurdodau Lleol oherwydd cynllun cyson y system a'r arbedion maint.

8.77 Cost baich yr ymgeisydd o dan yr opsiwn hwn, felly, fyddai:

$$\begin{aligned} \text{Cost of applicant burden} &= \frac{\text{value of one hour of time for working individuals}}{3} \times 2 \\ &= \frac{£21.13}{3} \times 2 = £14.09 \end{aligned}$$

8.78 Ar sail y rhagdybiaeth o 40,000 o ymgeiswyr y flwyddyn, mae hyn yn rhoi cyfanswm cost blynyddol o:

$$\text{Total annual cost of applicant burden} = £14.09 \times 40,000 = £563,600$$

8.79 Mae hyn yn arbediad ariannol o £281,600 y flwyddyn i ymgeiswyr (o gymharu ag opsiwn 1).

Cost ac arbedion cyffredinol

8.80 Mae opsiwn 3 yn cynnig arbediad yn y costau gweinyddol o gymharu ag opsiwn 1, a chostau i Lywodraeth Cymru fyddent yn hytrach nag i Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, mae'r arbedion yn is nag yn opsiwn 2.

8.81 Crynhoir y costau cyffredinol a'r arbedion posibl yn nhabl 1.8.

Tabl 1.8 - Crynodeb o gostau pum mlynedd ar gyfer opsiwn 4

	Cost 5 mlynedd ar gyfer opsiwn 4	Arbedion cost o gymharu ag opsiwn 1
Cyfanswm y gost weinyddol	£18,535,000	£2,096,000
Baich amser mewn termau ariannol i	£2,818,000	£1,408,000

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

ymgeiswyr		
Cyfanswm y gost	£21,353,000	£3,504,000

8.82 Gwerth presennol costau'r opsiwn hwn yw £19,014,000.

Risgiau a manteision

8.83 Mae yna rai manteision a risgiau anariannol allweddol ychwanegol a allai gael eu gwireddu drwy'r opsiwn hwn:

Manteision	
1	Byddai system a weinyddir gan barti a gontractiwyd yn darparu un porthol i bob rhiant cymwys wneud cais am y gofal plant a ariennir gan y llywodraeth, yn hytrach na chael 10 o systemau lleol a ddatblygir ac a weinyddir yn unigol gan yr Awdurdodau Lleol.
2	Byddai un system apelau i rieni sy'n anhapus â phenderfyniad am eu cymhwystra, ac un dull o adolygu'r penderfyniad ac un awdurdod perthnasol, fel y Tribiwnlys Haen Gyntaf, i ystyried apelau ymhellach.
3	Drwy gontractio darparwr trydydd parti i fod yn gyfrifol am y broses ymgeisio a gwirio cymhwystra ar gyfer y Cynnig, byddai Llywodraeth Cymru'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb o ran diogelwch y data i'r parti a gontractiwyd. Fodd bynnag, byddai'n hanfodol cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac roedd Llywodraeth Cymru yn glir ynghylch hyn.

Risgiau	
1	Byddai gan Lywodraeth Cymru rôl rheoli contract gyda'r parti a gontrectir a byddai cytundeb lefel gwasanaeth cymhleth yn cael ei sefydlu.
2	Byddai contract ar y raddfa hon yn galw am drefniadau caffael cymhleth ac ymarfer tendro hirwyntog, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau ariannol perthnasol a thryloywder a gwerth am arian o ran cyllid cyhoeddus. Byddai cyfyngiad amser hefyd, yn wahanol i system Awdurdodau Lleol o dan opsiwn 1, lle gallent sefydlu prosesau yn gymharol gyflym a pharhau i'w cynnal i'r dyfodol.
3	Fel yn achos opsiwn 2, system a berchnogir ac a gynhelir gan drydydd parti a gontrectir a fyddai'n gweinyddu'r broses gwirio cymhwystra ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig. Ni fyddai'n gweinyddu'r 10 awr o addysg y mae gan blant 3-4 oed hawl iddynt. Byddai dwy elfen i'r broses gais i rieni, felly, lle byddai'n rhaid iddynt wneud cais i'w Hawdurdod Lleol am le mewn addysg, ac yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru am le gofal plant. Byddai hyn, felly, yn cynyddu'r baich ar rieni ac yn cymhlethu'r broses gais.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Opsiwn 5 – Awdurdodau Gweithredu’n derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra (cynllun cyflawni presennol / opsiwn gwneud dim)

8.84 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn newid y ddeddfwriaeth bresennol. Os bydd y Cynnig yn parhau i gael ei gyflwyno'n raddol fel y cynlluniwyd, bydd pob Awdurdod Gweithredu'n rheoli ac yn prosesu ceisiadau yn annibynnol. Bydd y model hwn ar waith o fis Medi 2019 ar gyfer gweithredu'r Cynnig yn gynnar.

8.85 Mae crynodeb isod o'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Cyflwynir dadansoddiad mwy manwl o ofynion, rhagdybiaethau a chostau cysylltiedig yr opsiwn hwn yn nhabl 1.9 yn Atodiad 9.

8.86 Dyma dabl cryno o gostau'r opsiwn hwn:

Opsiwn 5 – Awdurdodau Gweithredu’n derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra: Crynodeb o'r costau gweinyddol

Opsiwn	Cost bontio (2019/20)	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	CYFANSWM
Costau Refeniw i Lywodraeth Cymru	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Costau Cyfalaf i Lywodraeth Cymru	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Costau Refeniw i Awdurdodau Lleol	£587,000	£2,422,000	£2,423,000	£2,424,000	£2,424,000	£2,425,000	£12,705,000
Costau Cyfalaf i Awdurdodau Lleol	£7,926,000	£0	£0	£0	£0	£0	£7,926,000
CYFANSWM	£8,513,000	£2,422,000	£2,423,000	£2,424,000	£2,424,000	£2,425,000	£20,631,000

8.87 Mae cost bontio'r opsiwn hwn yn un o'r uchaf o'r holl opsiynau; dim ond yr opsiwn lle mae pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yn gweinyddu'r cynnig sydd â chost uwch, Hynny gan y bydd mwy nag un system i dderbyn ceisiadau a chynnal y gwiriadau gan y byddai pob Awdurdod Gweithredu'n darparu'r gwasanaeth.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

- 8.88 Fodd bynnag, gan fod Opsiwn 5 yn adlewyrchu ein cynlluniau cyflawni presennol ar gyfer gweithredu'n gynnar, mae rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â phontio yn gostau suddedig (maent eisoes wedi'u hysgwyddo ac ni ellir eu hadennill). Er enghraifft, cost amser staff i ddatblygu systemau a phrosesau i rieni allu gwneud cais a gwirio eu cymhwysra, neu'r cost cychwynnol ar gyfer prynu system TG. Serch hynny, dengys dadansoddiad sensitifrwydd hyd yn oed pe bawn yn ystyried bod 100% o'r costau pontio wedi'u gwario ac nad oes modd eu hadennill (er nad dyma'r sefyllfa yn sicr), mae'r opsiwn hwn yn parhau i fod yn ddrutach na'r opsiwn a ffeffrir (£7 miliwn yn fwy).
- 8.89 Fel yr eglurwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, mae ychwanegu premiwm risg yn arfer da¹⁸. Wrth fynd ati i ddechrau gwneud arfarniad, gellir ychwanegu ymgodiad cyffredinol at werth presennol net prosiect, er mwyn gwrthbwysu optimistiaeth gormodol. Mae'r ymgodiad a ychwanegwyd yma yn cynyddu cost y broses bontio'n sylweddol. Mae'n cynnwys ymgodiad yng nghostau pontio cyfartalog endidau unigol, gan fod gwaith ymchwil yr ymgynghoriaeth annibynnol yn dangos bod costau ychwanegol yn dod i ran endidau unigol yn ystod eu blwyddyn gyntaf, yn dibynnu ar gymhlethdod y dechnoleg. Gan nad un endid sydd dan sylw yn yr opsiwn hwn, ond 10 Awdurdod Lleol yn darparu'r gwasanaeth, nodwyd ffigur uwch.
- 8.90 Mae yna dystiolaeth bod arfarnwyr prosiectau yn tueddu i fod yn or-optimistaidd wrth ddatblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau TG (yn ogystal â mathau eraill o brosiectau cyfalaf). Y canlyniad yw amcangyfrif annigonol o'r costau a'r amserlenni, ac amcangyfrif rhy uchel o'r manteision, sef gor-optimistiaeth. Mae canllawiau Trysorlys EM yn nodi y dylid addasu amcangyfrifon o gostau, manteision a hyd prosiect, ar sail data am brosiectau o'r gorffennol neu brosiectau tebyg, ac y dylid eu haddasu hefyd yn ôl nodweddion unigryw'r prosiect dan sylw.¹⁹ Nodir bod angen cywiro'r gor-optimistiaeth ar gyfer yr opsiwn hwn i'r lefel uchaf, yn unol â chyfarwyddyd Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Y rheswm am hyn yw nad oes gan Awdurdodau Gweithredu brofiad o'r gwaith hwn (llai na dwy flynedd ar y mwyaf) a bod nifer fawr o ffactorau nad ydynt yn hysbys mewn perthynas â'r opsiwn hwn, sy'n cynyddu'r risg y bydd cost gychwynnol y broses bontio yn codi.
- 8.91 Mae'r costau rhedeg blynyddol yn sylweddol uwch ar gyfer yr opsiwn hwn nag ar gyfer unrhyw un arall heblaw'r opsiwn lle mae pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yn darparu'r cynnig yn unigol. Mae'r costau rhedeg blynyddol yn cynyddu ychydig yn sgil costau integreiddio unrhyw systemau a fydd yn cynyddu'n gyson bob blwyddyn. Mae gweddill y costau rheolaidd yn parhau'r un fath bob blwyddyn, hy gwirio'r ceisiadau,

¹⁸ Tud 30: Llawrlyfr Gwyrdd Trysorlys EM

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220541/green_book_complete.pdf

¹⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/green-book-supplementary-guidance-optimism-bias>

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

yr apelau, y ddesg gymorth, gan fod y meini prawf cymhwystra yn parhau'r un fath, ac felly ni fyddai angen gwneud unrhyw newidiadau.

Baich yr ymgeisydd

8.92 Mae baich amser ar rieni a gwarcheidwaid sy'n gwneud cais i wirio eu cymhwystra a chyflwyno eu ceisiadau a'r dogfennau ategol. Caiff y baich amser hwn ei nodi mewn termau ariannol at ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Rydym wedi defnyddio'r un fethodoleg i gyfrifo'r baich amser ar rieni a gwarcheidwaid ar gyfer Opsiwn 5 a'r hyn a ddefnyddiwyd yn Opsiwn 1. Hynny gan y bydd profiad rhieni o'r system yr un peth. Mae'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth ddogfennol yn ogystal â'r manylion safonol a gesglir drwy gais CThEM, ac felly amcangyfrifir bod y broses yn cymryd awr o dan yr opsiwn hwn.

8.93 Cost baich yr ymgeisydd o dan yr opsiwn hwn, felly, fyddai:

Cost of applicant burden
= value of one hour of time for working individuals
= £21.13

8.94 Rhagwelir 40,000 o ymgeiswyr y flwyddyn, sy'n creu cyfanswm cost blynyddol o:

Total annual cost of applicant burden = £21.13 x 40,000 = £845,200

Cost ac arbedion cyffredinol

8.95 Crynhoir y costau cyffredinol a'r arbedion posibl yn nhabl 1.10.

Cyfanswm cost gweithredu opsiwn 5 dros 5 mlynedd	£20,631,000
Gwerth cost amser i ymgeiswyr dros 5 mlynedd	£845,200 x 5 years = £4,226,000
Cyfanswm cost darparu opsiwn 5 dros 5 mlynedd	£24,857,000

8.96 Gwerth presennol costau'r opsiwn hwn yw £22,484,000.

Risgiau a manteision

8.97 Dyma'r opsiwn sylfaenol, ac felly yn ogystal â'r ffaith nad oes costau ychwanegol, nid oes manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

Risgiau	
1	Nid oes gan yr Awdurdodau Lleol y porth cyfreithiol i wirio cymhwysra yn erbyn data gweinyddol y Llywodraeth, ac felly mae'r system yn fwy agored i dwyll.
2	Heb y gallu i wirio cofnodion gweinyddol y Llywodraeth, mae'r system a'r prosesau sy'n cael eu rhoi yn eu lle yn debygol o roi'r baich ar y rhieni i ddarparu tystioleth o'u cymhwysra, ac efallai na fydd rhai'n gallu manteisio'n llawn ar y Cynnig os ydynt yn cael hyn yn anodd neu'n llafurus (e.e. cael gafael ar slipiau talu i ddangos eu cyflogaeth a'u tâl).
3	Bydd y dystiolaeth y mae rhieni'n debygol o orfod ei darparu yn bersonol ac yn sensitif; mae hyn yn creu risgiau posibl ran diogelwch data.
4	Gallai'r 10 Awdurdod Lleol greu systemau gwahanol, a fyddai'n aneffeithlon ac efallai'n creu dryswch yn y broses ymgeisio (e.e. lle mae rhieni'n gweithio mewn ardal wahanol i'r ardal lle maent yn byw).

Crynodeb o'r opsiwn a ffeirir

8.98 Yr opsiwn rydym yn ei ffafrio yw bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn derbyn y ceisiadau ar gyfer y Cynnig, yn gwirio cymhwysra ceisiadau, ac yn rhoi gwybod i ymgeiswyr ar ran Llywodraeth Cymru a ydynt yn gymwys. Fel yr esboniwyd uchod, y prif reswm yw bod eu profiad o weinyddu'r cynnig gofal plant yn Lloegr yn golygu eu bod mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithlon, a bod llai o risg oherwydd eu profiad a'u mynediad i gofnodion gweinyddol, ac felly mai nhw sy'n darparu'r gwerth gorau am arian.

9 Asesiad o effeithiau penodol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

9.1 Mae'r Bil yn allweddol er mwyn galluogi'r broses o ddatblygu system ymgeisio a gwirio cymhwysra genedlaethol ar gyfer y Cynnig. Mae'n bwysig, felly, wrth gefnogi egwyddor gyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ymwneud ag ymyriadau cadarnhaol heddiw er budd pobl Cymru yfory. Bydd y Bil yn cyfrannu, i raddau llai neu fwy, at bob un o saith nod y Ddeddf, ac mae'r Cynnig a'r Bil hwn wedi'u datblygu ac yn parhau i gael eu datblygu yn unol â'r pum ffordd o weithio - gan ganolbwyntio ar y tymor hir, atal problemau, integreiddio, cydweithio a chynnwys pobl.

Asesiadau Effaith

9.2 Mae amrywiaeth o asesiadau o effeithiau penodol a gweithgareddau sgrinio wedi'u cynnal i gefnogi taith y Bil drwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad Bioamrywiaeth
- Asesiad Prawfesur Polisiâu o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad
- Asesu'r Effaith ar Iechyd
- Asesiad o'r Cymorth Gwladwriaethol
- Asesiad o'r Gystadleuaeth
- Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd
- Asesiad Cyfiawnder
- Asesiad o'r Effaith ar Ddatblygu Cynaliadwy
- Asesiad o'r Effaith ar y Newid yn yr Hinsawdd

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

9.3 Cynhaliwyd asesiad llawn o effaith y Bil ar gydraddoldeb. Ystyrir y bydd y Bil a'r gwasanaeth y mae'n ceisio ei ddarparu yn effeithio'n gadarnhaol ar blant cymwys a rhieni cymwys. Mewn llawer o ffyrdd, ni fydd y Bil yn effeithio ar gydraddoldeb gan y bydd y system a ddaw yn ei sgil yn agored i bawb - ar-lein neu dros y ffôn, a rhagwelir y bydd lefelau a safonau gwasanaethau yr un fath drwy'r ddau gyfrwng.

9.4 Gwyddom yn sgil Arolwg Cenedlaethol Cymru fod problem allgáu digidol yn gymharol isel (15%) ymhlith oedolion (16+), ond ei bod yn uwch ymhlith pobl anabl (25%) a phobl 50 oed a throsodd (27%). I gyd-fynd â'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra arfaethedig, bydd llinell gymorth ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn gallu defnyddio system ar-lein, a bydd

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

hyn yn helpu i leihau unrhyw anfanteision i'r rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

- 9.5 Bydd y Bil yn hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol drwy ddarparu ar gyfer un system geisiadau a gwirio cymhwysra genedlaethol gyson ar gyfer y Cynnig ledled Cymru. Bydd hefyd yn arwain at ddatblygu system debyg i'r model sy'n cael ei weithredu yn Lloegr ar hyn o bryd. Dylai hyn helpu i osgoi sefyllfa yng Nghymru lle mae Awdurdodau Lleol yn mynd ati i wirio cymhwysra mewn ffordd wahanol, a bydd yn golygu bod yr un gwasanaeth ar gael i bob ymgeisydd ledled Cymru a Lloegr a bod yr un rheolau yn cael eu defnyddio.
- 9.6 Mae'r copi a gyhoeddwyd o'r asesiad effaith hwn ar gael yma:
<http://llyw.cymru/docs/dsjlg/publications/cyp/181411-childcare-funding-eia-cy.pdf>

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- 9.7 Cynhaliwyd asesiad effaith llawn mewn perthynas â'r Bil. Rhagwelir y bydd y Bil a'r system genedlaethol newydd y bydd yn ei galluogi yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant, gan roi mynediad cyflym a hawdd i blant cymwys i ofal plant a ariennir gan y llywodraeth.
- 9.8 Bydd pob math o deuluoedd yn gallu defnyddio'r system ddigidol a chyflwyno cais am ofal plant rhad ac am ddim, gan y bydd dwy ffordd o wneud cais - ar-lein a dros y ffôn.
- 9.9 Bydd y Bil yn ei gwneud yn bosibl darparu system a fydd yn cefnogi egwyddorion erthygl 18 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n datgan y dylai'r Llywodraeth gefnogi rhieni i edrych ar ôl eu plant, yn enwedig pan fydd y ddau riant yn gweithio. Mae'r Bil a'r Cynnig hefyd yn ategu erthyglau eraill.
- 9.10 Mae'r copi a gyhoeddwyd o'r asesiad effaith hwn ar gael yma:
<http://llyw.cymru/docs/dsjlg/publications/cyp/181411-childcare-funding-crypia-cy.pdf>

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

- 9.11 Cynhaliwyd asesiad effaith llawn mewn perthynas â'r Bil.
- 9.12 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi manylion yr opsiwn a ffeirir, sef bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gweithredu'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra ar ran Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd Safonau'r Gymraeg yn berthnasol.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

- 9.13 Mae'r effeithiau a nodwyd yn canolbwyntio ar sicrhau y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo a'i hwyluso ac y bydd y darparwr gwasanaeth yn gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu'r gwasanaeth.
- 9.14 Mae'r Bil a'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni yn gysylltiedig iawn â dyheadau Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr. Mae'r strategaeth hon a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn nodi bod y Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg yn ffynnu, a chynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith bob dydd. Drwy greu system ymgeisio a gwirio cymhwysra ddwyieithog, bydd y Bil yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.
- 9.15 Cymerir camau i weithio gyda'r darparwr gwasanaeth i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod y broses ymgeisio a gwirio cymhwysra, ac i sicrhau y cydymffurfir â Safonau'r Gymraeg.
- 9.16 Mae'r copi a gyhoeddwyd o'r asesiad effaith hwn ar gael yma:
<http://llyw.cymru/docs/dsjlg/publications/cyp/181411-childcare-funding-wlia-cy.pdf>

Asesiad Bioamrywiaeth

- 9.17 Cynhaliwyd asesiad sgrinio Bioamrywiaeth mewn perthynas â'r Bil.
- 9.18 Wedi ystyried y Bil yng ngoleuni amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, daethpwyd i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau sylweddol ar ardaloedd cadwraeth arbennig nac ardaloedd gwarchodaeth arbennig i adar. Ni chynhaliwyd asesiad Rheoliadau Cynefinoedd llawn felly.

Asesiad Prawfesur Polisiâu o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad

- 9.19 Cynhaliwyd asesiad prawfesur polisiâu o safbwynt anghenion cefn gwlad mewn perthynas â'r Bil.
- 9.20 Ystyrir bod effaith y Bil a'r system genedlaethol arfaethedig ar gyfer ceisiadau a gwirio cymhwysra ar ardaloedd gwledig yn niwtral. Ni ystyrir bod angen asesiad effaith llawn, ac felly ni chynhaliwyd asesiad o'r fath.

Asesu'r Effaith ar Iechyd

- 9.21 Cynhaliwyd asesiad sgrinio effaith ar iechyd mewn perthynas â'r Bil.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

9.22 Ni nodwyd manylion negyddol gan fod y Bil yn dechnegol i raddau helaeth, ac yn ymwneud yn bennaf â'i gwneud yn bosibl datblygu system ymgeisio a gwirio cymhwysra genedlaethol ar gyfer y Cynnig.

9.23 Ni ystyrir bod angen asesiad effaith llawn, ac felly ni chynhaliwyd asesiad o'r fath.

Asesiad o'r Cymorth Gwladwriaethol

9.24 Cynhaliwyd asesiad sgrinio Cymorth Gwladwriaethol mewn perthynas â'r Bil. Yr opsiwn a ffeirir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw bod Corff Cyhoeddus arall yn gweinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'n annhebygol, felly, y byddai unrhyw oblygiadau o ran Cymorth Gwladwriaethol gan y byddai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gweithredu fel Awdurdod Cyhoeddus.

9.25 Ni ystyrir bod angen asesiad effaith llawn, ac felly ni chynhaliwyd asesiad o'r fath.

9.26 Cynhaliwyd asesiad sgrinio materion Cystadleuaeth mewn perthynas â'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru). Ni fydd y Bil yn effeithio ar fusnes, nac elusennau a/neu'r sector gwirfoddol mewn unrhyw ffyrdd sydd â goblygiadau o ran cystadleuaeth. Pe bai'r newid yn y ddeddfwriaeth yn cael ei basio, ni fyddai'n effeithio ar y sefyllfa o ran cystadleuaeth.

Prawf hidlo'r gystadleuaeth Cwestiwn	Ateb
Cwestiwn	
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw'r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn cynrychioli o leiaf 50% o'r farchnad?	Nac ydyn
C4: A fyddai'r costau a ddeuai yn sgil y rheoleiddio yn effeithio ar rai cwmnïau lawer iawn yn fwy nag eraill?	Na fydden
C5: A yw'r rheoleiddio yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Nac ydy
C6: A fyddai'r rheoleiddio yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoleiddio yn arwain at gostau rheolaidd uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu?	Na fyddai
C8: A oes newidiadau technolegol mawr yn digwydd o fewn y sector?	Nac oes

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

C9: A fyddai'r rheoleiddio yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad yr hyn a gynigiant?

Na fyddai

9.27 Ni ystyrir bod angen asesiad effaith llawn, ac felly ni chynhaliwyd asesiad o'r fath.

Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

9.28 Cynhaliwyd asesiad sgrinio o'r Effaith ar Breifatrwydd mewn perthynas â'r Bil.

9.29 Ni fydd y Bil ei hun yn dderbynnwyd gwybodaeth, ond yn hytrach bydd yn darparu'r sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol rhwng adrannau Llywodraeth y DU a Gweinidogion Cymru.

9.30 Bernir nad oes angen asesiad effaith llawn ac felly ni chafodd ei gynnal.

Asesiad Cyfiawnder

9.31 Ymgynghorwyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch effaith bosibl y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) ar y system gyfiawnder. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cosbau sifil a chosbau troseddol ac yn darparu llwybr apelio i ymgeiswyr i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Wrth asesu'r effaith ar y system gyfiawnder, ystyriwyd niferoedd yr achosion a'r troseddau tebyg yn ymwneud â'r system gyfatebol yn Lloegr. Oherwydd y niferoedd isel o achosion a ragwelir o ganlyniad i'r Bil, amcangyfrifir y bydd yr effaith ar dribiwnlysoedd dros y cyfnod ar ôl gweithredu yn 2019/20 yn fach iawn (1 achos bob 6 mis). Felly, ar gyfer 2019/20 a thu hwnt, bydd gwrandawriadau'r tribiwnlys yn cael eu hadolygu a'u costio fesul achos. Bydd effaith fach o ran y system cyfiawnder troseddol, incwm troseddol a chymorth cyfreithiol troseddol. Ni ragwelir unrhyw effaith mewn perthynas â charchardai a'r gwasanaeth prawf, llysoedd, gorfodaeth droseddol a llysoedd sifil a theulu. Ni ddisgwylir chwaith unrhyw effaith andwyol ar system TG troseddol, er y bydd y materion gweithredol yn dibynnu ar ddrafft terfynol y Bil.

9.32 AMae'r copi a gyhoeddwyd o'r asesiad effaith hwn ar gael yma:
<http://llyw.cymru/docs/dsjlg/publications/cyp/181411-childcare-funding-ija-cy.pdf>

Asesiad o'r Effaith ar Ddatblygu Cynaliadwy

9.33 A Cynhaliwyd asesiad sgrinio Datblygu Cynaliadwy mewn perthynas â'r Bil.

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

9.34 Ni fydd y Bil yn effeithio ar amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref na defnydd tir.

9.35 Ni ystyrir bod angen asesiad effaith llawn, ac felly ni chynhaliwyd asesiad o'r fath.

Asesiad o'r Effaith ar y Newid yn yr Hinsawdd

9.36 Aseswyd effaith y Bil ar y newid yn yr hinsawdd drwy broses sgrinio Llywodraeth Cymru.

9.37 Wedi ystyried Strategaeth Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010, daethpwyd i'r casgliad bod y Bil arfaethedig yn garbon-niwtral ac na nodwyd ffyrdd o helpu i leihau allyriadau carbon.

9.38 Ni ystyrir bod angen asesiad effaith llawn, ac felly ni chynhaliwyd asesiad o'r fath.

Y trydydd sector

9.39 Ni ystyrir y bydd y Bil yn effeithio ar y trydydd sector.

Tlodi

9.40 Nodwyd cyfleoedd i fynd i'r afael â thlodi yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

10 Adolygu ar ôl gweithredu

- 10.1 Yn yr adran hon, rydym yn nodi'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud i adolygu'r ddeddfwriaeth.
- 10.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd ystyried goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth mewn adolygiad ôl-weithredu. Bydd hwn yn rhan o'r adolygiad cenedlaethol ehangach o bolisi'r Cynnig Gofal Plant a sut y caiff ei weithredu..
- 10.3 Bydd yr adolygiad ehangach hwn yn gwerthuso effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac effaith y Cynnig Gofal Plant yn gyffredinol, ond caiff y ddeddfwriaeth dechnegol sy'n ymwneud â gwirio cymhwystra a phrosesu a'r costau cysylltiedig eu hystyried yn fanwl ar yr un pryd hefyd.
- 10.4 Ymchwilir i gostau alldro, arbedion, manteision ac anfanteision y ddeddfwriaeth a chânt eu hesbonio fel rhan o'r gwerthusiad. Caiff unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng yr union gostau a'r manteision a'r hyn a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn eu hesbonio.
- 10.5 I Disgwylir i'r gwaith o werthuso'r Cynnig Gofal Plant gael ei arwain gan aelod o un o'r proffesiynau dadansoddol, yn fwyaf tebygol Pennaeth Dadansoddi Polisi Tîm y Cynnig Gofal Plant (o broffesiwn Gwasanaeth Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth).
- 10.6 Caiff Grŵp Llywio'r Gwaith Gwerthuso ei sefydlu a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid amlwg. Yn ogystal â llywio'r adolygiad, bydd yn sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu go iawn ac yn helpu i'w rhannu ar draws y sector ac yn ehangach. Gwahoddir y Tîm Arfarnu Economaidd a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi hefyd i ymuno â Grŵp Llywio'r Gwaith Gwerthuso, a byddant yn rhan o'r broses o benderfynu ar union ddull yr adolygiad a manylion y camau dilynol.
- 10.7 Caiff yr adolygiad o'r Cynnig Gofal Plant ei gomisiynu'n annibynnol, yn unol â Chyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a gweithdrefnau caffael Llywodraeth Cymru.
- 10.8 Mae'r gwaith gwerthuso annibynnol ar y cyfnod peilot yn dysgu gwersi inni ar fonitro systemau a data, ac rydym yn ystyried y gwersi hyn er mwyn sicrhau y bydd y lefel ofynnol o wybodaeth ar gael ar gyfer yr adolygiad ôl-weithredu o'r ffordd y caiff y cynnig ei ddarparu'n genedlaethol. Caiff y gwerthuswyr annibynnol eu penodi'n gynnar, a bydd hyn yn helpu ymhellach i sicrhau bod trefniadau digonol yn eu lle i gasglu gwybodaeth fanwl am gostau.
- 10.9 Nid yw cost yr adolygiad ôl-weithredu wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon. Y rheswm am hyn yw mai darn technegol o'r ddeddfwriaeth ydyw sydd ond yn rhoi sylw i wirio cymhwystra a phrosesu, a chaiff ei effeithiolrwydd ei asesu fel rhan o'r gwerthusiad llawn o'r Cynnig. Ystyrir

Noder: paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo pobl i ddeall y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

nad yw cost y gwaith o gasglu data pellach, eu dadansoddi ac adrodd arnynt er mwyn adolygu'r ddeddfwriaeth dechnegol hon yn uchel o gwbl (<£5,000) yng nghyd-destun cost y gwerthusiad cenedlaethol (tua £350,000).

10.10 Caiff yr adolygiad cenedlaethol o'r Cynnig Gofal Plant ei gomisiynu yn ystod haf 2020. Bydd adroddiad interim yn dilyn ym mis Rhagfyr 2020 (a fydd yn ystyried yn bennaf effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses bontio), a bydd adroddiad cyfunol terfynol ar gael erbyn haf 2023. Ystyrir bod angen tair blynedd i gyflwyno'r Cynnig yn llawn er mwyn i'r broses newydd ymsefydlu ac er mwyn inni weld yn iawn beth yw'r costau rheolaidd.

Atodiad 1

DEDDF CYLLIDO GOFAL PLANT (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru), a gyhoeddwyd yn Natganiad Deddfwriaethol y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2017, a gyflwynwyd ar 16 Ebrill 2018 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar [XXXX]. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf, ac os ymddengys nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar adran unigol, nis rhoddir.

TROSOLWG O'R DDEDDF

3. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i gyllido gofal plant ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio, cyhyd ag y bo'r plant a'r rhieni yn bodloni meini prawf cymhwysra penodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn gwneud trefniadau ar gyfer sefydlu system ymgeisio a gwirio cymhwysra genedlaethol i'r cynllun cyllido gofal plant a bydd yn caniatáu i ddarpariaeth gael ei gwneud i alluogi rhannu data rhwng personau penodedig (er enghraifft, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac Adrannau eraill o Lywodraeth y DU) er mwyn hwyluso hyn.

CEFNDIR POLISI

4. Bwriad y Ddeddf yw sicrhau bod ymrwymiad allweddol ym maniffesto Llafur Cymru, *Gyda'n Gilydd dros Gymru (2016)*, yn cael ei gyflawni, sef darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a gyllidir gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio a chanddynt blant cymwys sy'n dair ac yn bedair oed yng Nghymru, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.
5. Mae tystiolaeth yn dangos bod cost gofal plant yn peri pryder mawr i rieni sy'n gweithio, gan ddylanwadu ar gyllid yr aelwyd ac ansawdd bywyd y teulu. Mae'r Llywodraeth wedi gwrandao ar y pryderon hyn ac ar rieni sy'n dweud bod y costau hyn yn rhwystr, gan eu hatal rhag dychwelyd i'r gwaith neu rhag symud ymlaen yn y gwaith.
6. Bydd y cynnig gofal plant yn helpu teuluoedd drwy roi opsiynau a chymorth iddynt. Bydd yn sicrhau bod gan blant le diogel a diddorol i ffynnu, dysgu a thyfu a bod bywyd cartref yn well oherwydd llai o bwysau ariannol ar

deuluoedd. Wrth gynorthwyo rhieni sy'n gweithio gyda chostau gofal plant, nod y cynnig gofal plant yw dileu un o'r rhwystrau posibl i gyflogaeth, cynyddu dewisiadau cyflogadwyedd a dylanwadu ar incwm gwario.

7. Mae'r Ddeddf yn gwneud y newidiadau deddfwriaethol y mae eu hangen er mwyn hwyluso darparu'r cynnig gofal plant. Mae'n rhoi'r pwerau angenrheidiol i Weinidogion Cymru i sefydlu system ymgeisio a gwirio cymhwysra genedlaethol fel y gall rhieni sy'n bodloni'r meini prawf wneud cais am ofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth. Bydd system ar-lein ar gyfer ceisiadau a gwirio cymhwysra yn galluogi ceiswyr i gael penderfyniad cyflym ar eu hawlogaeth i gael y cyllid.

RHYCHWANT TIRIOGAETHOL A CHYMHWYSO

8. Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn rhychwantu Cymru a Lloegr (fel un awdurdodaeth gyfreithiol). Mae'r Ddeddf yn gymwys i blant yng Nghymru yn unig.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 – Cyllido gofal plant ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio

9. Mae adran 1(1) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu cyllid i unrhyw berson er mwyn sicrhau gofal plant ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio. Mae adran 1(2) yn darparu gwybodaeth lefel uchel ynghylch pwy fyddai'n blentyn cymhwysol, gan ei gwneud yn glir mai plant sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol ac sydd yng Nghymru fydd yn blant cymhwysol. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn pennu'n fanylach y sawl sy'n "plant cymhwysol" a "rhieni sy'n gweithio" at ddibenion darparu cyllid o'r fath.
10. Bydd rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn nodi'r disgrifiad o "plentyn cymhwysol"; caiff y disgrifiad hwn ymwneud, er enghraifft, â'r oedran pan ystyrir fod plentyn yn gymwys i gael gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth a bydd y rheoliadau yn gwneud darpariaeth ynghylch y sawl sy'n rhiant sy'n gweithio at ddibenion cael y cyllid. Byddant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i berson wneud datganiad bod holl elfennau'r meini prawf cymhwysra wedi eu bodloni fel rhan o'i gais am gyllid. Caniateir i reoliadau gael eu gwneud hefyd er mwyn egluro pryd yr ystyrir bod plentyn "yng Nghymru"; yr amgylchiadau pan ystyrir bod person yn "partner i berson" ac i esbonio'r hyn a olygir gan y term "rhiant" a "gwneud gwaith am dâl". Er enghraifft, cânt bennu y bydd person sy'n absennol dros dro o'r gweithle o dan amgylchiadau penodol, megis absenoldeb rhiant, yn cael ei ystyried fel pe bai yn y gwaith at ddibenion penderfynu ar ei gymhwysra i gael y cyllid.

Adran 2 – Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch gweinyddu etc. cyllid

11. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi'r trefniant ar gyfer gweinyddu a gweithredu'r cynllun cyllido a sefydlir yn rhinwedd adran 1. Caiff y rheoliadau hyn gynnwys, er enghraifft, fanylion y trefniadau mewn cysylltiad â'r ffordd y gall rhiant, neu bartner i riant plentyn cymwys, wneud cais am y cyllid a sut yr ymgwymerir â

gwiriadau cymhwysra. Mae adrannau 3 i 7 o'r Ddeddf yn cynnwys rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn y Rheoliadau a wneir o dan yr adran hon.

Adran 3 – Gofyniad i rieni etc. ddarparu gwybodaeth

12. Mae'r adran hon yn datgan y caiff unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 2 o'r Ddeddf gynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i geiswyr sy'n gwneud datganiad neu sydd wedi gwneud datganiad yn rhinwedd adran 1(d) ddarparu gwybodaeth a dogfennau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch eu cymhwysra. Er enghraifft, gall fod yn ofynnol i berson ddarparu manylion ei statws cyflogaeth a thystiolaeth o'i enillion, neu dystysgrif geni plentyn er mwyn dilysu oedran y plentyn. Gall fod yn ofynnol darparu'r wybodaeth hon i Weinidogion Cymru neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru.
13. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch gosod cosbau ariannol mewn cysylltiad â datganiadau anwir neu gamarweiniol a wneir, neu wybodaeth a ddarperir gan berson mewn cysylltiad â chais am gyllid. Mae adran 3(4) yn egluro'r hyn a olygir gan "anwir a chamarweiniol" ac yn cadarnhau ei fod yn golygu anwir neu gamarweiniol mewn manylyn perthnasol. Mae hyn yn golygu na fyddai person yn agored i gosb gael ei gosod arno ond os ystyriwyd bod yr wybodaeth anwir neu gamarweiniol a ddarparwyd yn cael effaith ar ba un a fyddai person yn gymwys i gael y cynnig ai peidio, megis manylion am ei enillion, oedran y plentyn etc. Mae adran 3(5) yn sicrhau na fydd person yn agored i gosb ariannol a osodir yn unol ag unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 2 os yw wedi ei euogfarnu ar wahân o drosedd mewn perthynas â'r un digwyddiad.
14. Mae adran 3(6) yn darparu mai uchafswm unrhyw gosb ariannol y caniateir iddi gael ei chodi mewn rheoliadau a wneir o dan adran 2 yw £3,000. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i ddiwygio'r uchafswm hwn mewn rheoliadau (gweler adran 10 o'r Ddeddf).

Adran 4 – Darparu gwybodaeth gan drydydd partion

15. Mae adran 4 o'r Ddeddf yn pennu y caiff y rheoliadau (y caniateir iddynt gael eu gwneud o dan adran 2) wneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth benodedig sy'n ofynnol er mwyn gweinyddu a gweithredu'r cynllun cyllido gofal plant. Rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r hyn sy'n "gwybodaeth gymhwysol" at ddibenion yr adran hon ond ni chaniateir iddynt ddefnyddio'r pŵer hwn ond er mwyn pennu gwybodaeth sy'n ofynnol i benderfynu ar gymhwysra i gael cyllid o dan adran 1 o'r Ddeddf.
16. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n caniatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, i adran o'r llywodraeth neu i un o Weinidogion y Goron (neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, i adran o'r llywodraeth neu i un o Weinidogion y Goron) ddarparu i Weinidogion Cymru (neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru) unrhyw wybodaeth gymhwysol sy'n berthnasol i wneud penderfyniad am gymhwysra person i gael gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth. Hefyd, caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu i awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth,

neu ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth, i Weinidogion Cymru, neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru.

17. Fodd bynnag, bydd unrhyw reoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch datgelu gwybodaeth yn unol â'r ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i ofyniad bod y Gweinidog priodol yn cydsynio â'r ddarpariaeth (adran 4(5)). Mae adran 4(6) yn nodi pwy yw'r Gweinidog priodol.

Adran 5 – Datgelu ymlaen wybodaeth sydd wedi ei datgelu yn rhinwedd adran 3 neu 4

18. Mae adran 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch datgelu ymlaen wybodaeth sydd wedi cael ei datgelu yn rhinwedd adran 3 neu 4. Mae adran 5(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog priodol roi cydsyniad i unrhyw reoliadau sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch datgelu ymlaen wybodaeth a ddarperir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, un o Weinidogion y Goron, adran o'r llywodraeth neu berson sy'n darparu gwasanaethau i unrhyw un neu ragor o'r personau hyn. Mae i "Gweinidog priodol" yr un ystyr yn yr adran hon ag yn adran 4, sef y Trysorlys mewn perthynas â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer adran o'r llywodraeth neu un o Weinidogion y Goron.
19. Mae adran 5(3) yn galluogi i unrhyw reoliadau sy'n ymwneud â datgelu ymlaen wybodaeth wneud darpariaeth ar gyfer troseddau mewn cysylltiad â datgelu ymlaen heb awdurdod wybodaeth sydd wedi cael ei rhannu at ddibenion gwneud penderfyniad am gymhwystra person i gael gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth.
20. Yn unol ag adran 5(4), ni all uchafswm y gosb y caniateir iddi fod yn gysylltiedig ag unrhyw drosedd sydd wedi ei chreu yn rhinwedd yr adran hon fod yn hwy na dedfryd o garchar am 2 flynedd (pa un a yw'n dod gyda dirwy ai peidio).

Adran 6 – Adolygu penderfyniadau ac apelau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf

21. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn pennu y caiff rheoliadau y caniateir iddynt gael eu gwneud o dan adran 2 wneud darpariaeth ynghylch yr hyn sy'n digwydd pan fo person am herio penderfyniad am ei gymhwystra i gael cyllid. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch adolygiadau o benderfyniadau ac ar gyfer apelau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Os yw rheoliadau yn cael eu gwneud o dan adran 2 o'r Ddeddf sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gosod cosbau ariannol (yn unol ag adran 3) yna mae adran 6(2) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt hefyd wneud darpariaeth er mwyn galluogi person i herio gosod y gosb ariannol neu ei swm.

Adran 7 – Pŵer i roi swyddogaethau i Awdurdodau Lleol

22. Mae adran 7 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth yn y rheoliadau y caniateir iddynt gael eu gwneud o dan adran 2 i roi pŵer neu i osod rhwymedigaethau ar Awdurdodau Lleol a chânt hefyd wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru i gefnogi gweinyddu a gweithredu'r cynllun cyllido.

Adran 8 – Diwygiad canlyniadol i Ddeddf y Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005

23. Mae adran 8 o'r Ddeddf yn cynnwys diwygiad i adran 18 o Ddeddf y Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 ("Deddf 2005") sy'n gwneud darpariaeth ynghylch dyletswydd cyfrinachedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae adran 18 o Ddeddf 2005 yn nodi'r cod cyfrinachedd ar gyfer Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'i swyddogion mewn perthynas â'r wybodaeth a gedwir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac yn pennu'r amgylchiadau pan all datgeliadau gael eu gwneud.
24. Bydd y diwygiad i Ddeddf 2005, a gynhwysir yn adran 8, yn mewnosod paragraff newydd yn adran 18(2) o'r Ddeddf honno a fydd yn galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i ddatgelu gwybodaeth sy'n ofynnol at ddibenion unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon i Weinidogion Cymru (neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru).
25. Mae Deddf 2005 yn ffurfio rhan o'r gyfraith yn nhair awdurdodaeth gyfreithiol y Deyrnas Unedig: sef Cymru a Lloegr; yr Alban; a Gogledd Iwerddon (gweler adran 56 o Ddeddf 2005 am y ddarpariaeth sy'n pennu rychwant y Ddeddf ledled y DU).
26. Mae adran 108A(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n nodi'r rheolau sy'n llywodraethu terfynau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, yn cyfyngu ar rychwant Deddfau'r Cynulliad, gan gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth arall a wneir gan y Ddeddfau hynny, i awdurdodaeth Cymru a Lloegr.
27. Mae hyn yn golygu y bydd gan y diwygiad i adran 18 o Ddeddf 2005 rychwant mwy cyfyngedig na'r darpariaethau hynny yn Neddf 2005 sy'n rychwantu'r DU gyfan. Felly bydd adran 18 o Ddeddf 2005, i'r graddau y mae'n rychwantu awdurdodaethau'r Alban a Gogledd Iwerddon, yn bodoli heb y diwygiad a gynhwysir yn adran 8 o'r Ddeddf. Ond bydd y diwygiad yn cael effaith at ddibenion awdurdodaeth Cymru a Lloegr.

Adran 10 – Pŵer i newid swm y gosb ariannol ar gyfer darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol

28. Mae'r adran hon yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau i amrywio uchafswm y gosb o £3,000 a bennir yn adran 3(6) drwy wneud diwygiad i'r adran honno.

Adran 11 – Darpariaeth atodol ynghylch rheoliadau o dan y Ddeddf hon

29. Mae'r adran hon yn esbonio bod pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf i'w harfer drwy offeryn statudol (sy'n golygu bod gofynion gweithdrefnol penodol a gofynion eraill a gynhwysir yn Neddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf) ac yn pennu y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i bob defnydd o'r pwerau i wneud rheoliadau. Mae hyn yn golygu bod unrhyw reoliadau a wneir o dan

y Ddeddf yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ddatganedig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

30. Mae adran 11 hefyd yn ei gwneud yn glir y caiff unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf roi disgrisiwn i unrhyw berson. Mae angen y pŵer i roi disgrisiwn er mwyn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru o ran y trefniadau gweithredol sydd i'w gwneud ar gyfer gweinyddu unrhyw gyllid a ddarperir yn unol ag adran 1, er enghraifft, wrth wneud penderfyniad o ran pa un ai i osod cosb am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol a ddarperir gan berson mewn cysylltiad â'i gais am gyllid. Rhaid i berson sy'n arfer disgrisiwn o dan amgylchiadau o'r fath arfer barn resymol er mwyn penderfynu pa un ai i osod cosb ai peidio ac, os gosodir cosb, swm y gosb honno.
31. Caiff unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf hefyd roi disgrisiwn i berson a chânt wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, a gwneud darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, atodol, ddarfodol, drosiannol neu arbed.

Adran 12 - Dod i rym

32. Mae adran 12(1) yn nodi darpariaethau'r Ddeddf a fydd yn dod i rym un diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol.
33. Bydd unrhyw adrannau o'r Ddeddf nas crybwyllir yn is-adran (1) yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir mewn gorchymyn (neu orchmynion) cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol ag is-adran (2). Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i bennu dyddiadau cychwyn gwahanol a chânt gychwyn darpariaethau at ddibenion gwahanol neu mewn perthynas ag ardaloedd penodedig.

Adran 13 - Enw byr

34. Mae'r adran hon yn datgan mai enw byr y Ddeddf hon fydd Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru)[2018].

COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

35. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IIId=21394&Opt=0>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	16 Ebrill 2018
Cyfnod 1 - Dadl	17 Gorffennaf 2018
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	18 Hydref 2018
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	5 Rhagfyr 2018
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad	12 Rhagfyr 2018

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Cyllido Gofal Plant (Cymru) a gyflwynwyd gerbron
Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Ebrill 2018*

Y Cydsyniad Brenhinol	Ionawr 2019
-----------------------	-------------

Atodiad 2 Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

	Rheol Sefydlog	Adran	tudalennau/ paragraffau
26.6(i)	Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad	Datganiad yr Aelod	Tudalen 2
26.6(ii)	Nodi amcanion polisi y Bil	Pennod 3 - Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Tudalen 8
26.6(iii)	Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalen 21
26.6(iv)	Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu; • manylion y Bil, a • Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) 	Pennod 4 - Ymgynghori	Tudalen 14-15
26.6(v)	Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio	Pennod 4 - Ymgynghori	Tudalen 15, Paragraff 4.9

	Rheol Sefydlog	Adran	tudalennau/ paragraffau
26.6(vi)	Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Pennod 4 - Ymgynghori	Tudalen 14
26.6(vii)	Crynhoi'n wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o darpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil	Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol	Tudalennau 69-74. Ceir crynodeb o'r darpariaethau yn y Nodiadau Esboniadol
26.6(viii)	Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt; • yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt; • costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil • dros ba gyfnodau amser y disgwyliid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac • ar bwy y byddai'r costau'n syrthio 	Rhan 2 - Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalen 22
26.6(ix)	Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol	Rhan 2 - Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalen 61-66
26.6(x)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath; <p>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;</p> <p>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer;</p> <p>(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a</p>	Adran 5 – Tudalen 16 - Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Tudalen 17-21

Rheol Sefydlog		Adran	tudalennau/ paragraffau
	pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall)		
26.6(xi)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Cyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ynghylch a yw'r tâl yn briodol neu beidio	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn	
26.6B	Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o deddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B am Dabl Tarddiadau yn gymwys.	
26.6C	Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.	Atodiad 3 – Tudalen 78 - Atodlen o Ddiwygiadau	Tudalen 69

Atodiad 3

Atodlen o Ddiwygiadau

[Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005]

DIWYGIADAU SYDD I'W GWNEUD GAN Y BIL [CYLLIDO GOFAL PLANT] (CYMRU)

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai darpariaethau Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005, lle'r oeddent yn gymwys i Gymru ar 16 Ebrill 2018, yn edrych ar ôl cael eu diwygio gan y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) (pe bai'n dod i rym fel y'i cyflwynwyd ar 16 Ebrill 2018).

Mae llinell drwy'r testun a fydd yn cael ei ddileu gan y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), ~~ee e.e. mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn.~~ Mae'r testun a fydd yn cael ei ychwanegu gan y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) wedi'i danlinellu, ee mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn. Cyfeirir at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Mae nifer o ddarpariaethau o'r Ddeddf wedi'u cynnwys, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r diwygiadau arfaethedig.

Rhybudd

Swyddogion o Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru sydd wedi paratoi'r testun hwn. Er y gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y testun yn gywir, ni ddylid ei ystyried fel testun terfynol y Ddeddf neu'r Bil.

Cafodd ei gynhyrchu i helpu pobl i ddeall effaith Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn unig. Ni ddylai gael ei ddefnyddio yn unrhyw gyd-destun arall.

Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005

**Adran Bil
Cyllido Gofal Plant
(Cymru) Sydd i'w
Diwygio**

- (1) Revenue and Customs officials may not disclose information which is held by the Revenue and Customs in connection with a function of the Revenue and Customs.
- (2) But subsection (1) does not apply to a disclosure—
 - (a) which—
 - (i) is made for the purposes of a function of the Revenue and Customs, and
 - (ii) does not contravene any restriction imposed by the Commissioners,
 - (b) which is made in accordance with section 20 or 21,
 - (c) which is made for the purposes of civil proceedings (whether or not within the United Kingdom) relating to a matter in respect of which the Revenue and Customs have functions,
 - (d) which is made for the purposes of a criminal investigation or criminal proceedings (whether or not within the United Kingdom) relating to a matter in respect of which the Revenue and Customs have functions,
 - (e) which is made in pursuance of an order of a court,
 - (f) which is made to Her Majesty's Inspectors of Constabulary, the Scottish inspectors or the Northern Ireland inspectors for the purpose of an inspection by virtue of section 27,
 - (g) which is made to the [Director General of the Independent Office for Police Conduct] , or a person acting on [the Director General's] behalf, for the purpose of the exercise of a function by virtue of section 28, [...]

(h) which is made with the consent of each person to whom the information relates [, [...]]

[

(i) which is made to [Revenue Scotland] in connection with the collection and management of a devolved tax within the meaning of the Scotland Act 1998, [...]]

(ia) which is made to the Welsh Ministers by virtue of regulations made under the Childcare (Funding) (Wales) Act 2018.

Adran 8

]

[

(j) which is made to the Welsh Ministers in connection with the collection and management of a devolved tax within the meaning of the Government of Wales Act 2006[, or]

]

[

(k) which is made in connection with (or with anything done with a view to) the making or implementation of an agreement referred to in section 64A(1) or (2) of the Scotland Act 1998 (assignment of VAT).

]

[...]

[

(2A) Information disclosed in reliance on subsection (2)(k) may not be further disclosed without the consent of the Commissioners (which may be general or specific).

]

(3) Subsection (1) is subject to any other enactment permitting disclosure.

(4) In this section—

(a) a reference to Revenue and Customs officials is a reference to any person who is or was—

(i) a Commissioner,

(ii) an officer of Revenue and Customs,

(iii) a person acting on behalf of the Commissioners or an officer of Revenue and Customs, or

(iv) a member of a committee established by the Commissioners,

(b) a reference to the Revenue and Customs has the same meaning as in section 17,

(c) a reference to a function of the Revenue and Customs is a reference to a function of—

(i) the Commissioners, or

(ii) an officer of Revenue and Customs,

(d) a reference to the Scottish inspectors or the Northern Ireland inspectors has the same meaning as in section 27, and

(e) a reference to an enactment does not include—

(i) an Act of the Scottish Parliament or an instrument made under such an Act, [...]

[

(ia) an Act of the National Assembly for Wales or an instrument made under such an Act, or

]

(ii) an Act of the Northern Ireland Assembly or an instrument made under such an Act.

Atodiad 4

Tabl 1.0: Elfennau a diffiniadau'r model costau

Tabl 1: Elfennau a diffiniadau'r model costau	
Elfen	Diffiniad
Gweithredu	
Y pen blaen i'r cwsmer	Y pen blaen i'r cwsmer yw'r porthol y caiff rhieni ei ddefnyddio i wneud cais. Mae'n cynnwys y ffurflen gais, gwirydd cymhwysra (os yn berthnasol) a desg gymorth i helpu rhieni i gwblhau eu ceisiadau ac i hwyluso'r broses o wneud cais i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Ar gyfer pob opsiwn, tybir bod y pen blaen i'r cwsmer yn ddigidol yn bennaf ac ar gael ar y we. Dim ond mân newidiadau i systemau sydd eisoes ar waith y bydd eu hangen ar gyfer rhai opsiynau, ond bydd angen adeiladu system addas o'r cychwyn ar gyfer opsiynau eraill.
Gwirio hunaniaeth	Er mwyn bod yn sicr o hunaniaeth ymgeiswyr, mae dilyn proses gwirio hunaniaeth ²⁰ yn rhan ofynnol o'r broses o wneud cais. Gall lefelau diogelwch yr opsiynau ar gyfer hyn amrywio, a gellid cwblhau'r broses yn ddigidol neu â llaw.
System gwirio cymhwysra	Byddai system gwirio cymhwysra yn ei gwneud yn bosibl i wirio cymhwysra ymgeiswyr yn awtomataidd. I wneud hyn, byddai gofyn i ddata a ddarperir gan ymgeiswyr gael ei wirio'n awtomatig yn erbyn cronfeydd data eraill i roi penderfyniad ar eu cymhwysra. Mewn gwirionedd, ar gyfer Opsiwn 2 - Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn unig y mae'r dewis hwn yn ymarferol, gan eu bod nhw'n gallu hwyluso mynediad at setiau data fel y cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE), a fyddai'n rhoi gwybodaeth gyfredol i ni ynghylch enillion ymgeiswyr. Mae'n debygol y byddai opsiynau eraill yn brosesau â llaw gan na fyddai'n bosibl cael gafael ar rai o'r setiau data hyn gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac felly ni fyddai angen adeiladu system i gynnal y gwiriadau hyn yn awtomataidd.
Peiriant rheolau	Mae hwn yn diffinio'r rheolau busnes a ddefnyddir i benderfynu ar gymhwysra ymgeisydd – sef meini prawf cymhwysra y Cynnig yn yr achos hwn. Os defnyddir dull gweithredu digidol ar gyfer gwneud ceisiadau, gellid defnyddio cod i gynnwys y rheolau yn y drefn o brosesu ceisiadau er mwyn darparu dyfarniad ynghylch cymhwysra y gellir ei gofnodi a'i roi i rieni.
System rheoli achosion	Dull o storio a thracio cofnodion cwsmeriaid yn ddigidol yw system reoli achosion. Ar gyfer y Cynnig, bydd system rheoli achosion yn rhan annatod o'r gwaith o reoli achos

²⁰ <https://www.ddc.uk.net/dbs-id-checks/for-registered-bodies/>

	pob ymgeisydd drwy'r ymgeisio hyd nes iddynt beidio â bod yn gymwys bellach.
Sefydlu system rheoli achosion	Mae hyn yn edrych ar gostau sefydlu system rheoli achosion addas ar gyfer pob opsiwn.
Rhoi system rheoli achosion ar waith	Mae hyn yn edrych ar gostau rhoi'r system ar waith.
Trwydded ar gyfer system rheoli achosion	Dyma'r swm a godir am ddefnyddio'r feddalwedd gan y cwmni sy'n darparu'r system rheoli achosion.
Rheoli meistrddata	Dull o weithredu o fewn system sy'n ei gwneud yn bosibl i'r holl ddata gael ei gysylltu ag un ffeil, y meistr-ffeil, yw rheoli meistrddata. Mae hyn yn darparu pwynt cyfeirio cyffredin ac yn symleiddio'r gwaith o rannu data a chadw cofnodion.
